

Cardiff
Caerdydd

# Cynllun Lles Caerdydd 2018-2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Cyd-destun** 4

**Caerdydd Heddiw ac Yfory** 7

**Her Gwasanaethau Cyhoeddus** 10

**Caerdydd Amcanion Lles** 13

1. Prifddinas sy'n Gweithio i Gymru 13
2. Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn 19
3. Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymusol 25
4. Mae Caerdydd yn lle gwych i fagu plant 31
5. Cefnogi pobl allan o dlodi 37
6. Mae Caerdydd yn lle gwych i fynd yn hŷn 43
7. Moderneiddio ac Integreiddio Ein Gwasanaethau Cyhoeddus 49

**Mesur Cynnydd – Dangosyddion Llesiant** 54

**Geirfa** 57


**Atodiadau:**

Atodiad 1: Aelod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd - Cynlluniau Strategol
Atodiad 2: Lles yng Nghaerdydd: Adroddiad Adborth
Atodiad 3: Amcanion Llesiant Caerdydd – Cyfraniad at y Nodau Llesiant ac Amserlenni
Atodiad 4: Dogfen Dechnegol Mesur Cynnydd Dangosyddion Llesiant

I weld yr atodiadau, cliciwch yma:
www.cardiffpartnership.co.uk/cynllun-llesiant/?lang=cy

“Ni all unrhyw wasanaeth cyhoeddus unigol ymateb i'r heriau hyn ar ei ben ei hun”

# Rhagair

Mae Caerdydd bellach yn brifddinas economaidd, diwylliannol a gwleidyddol ym mhob ystyr. Mae'n ddinas o gymunedau cryf a diogel, ysgolion a phrifysgolion gwych, a phobl greadigol, talentog a chroesawgar. Pa ryfedd felly fod trigolion Caerdydd ei hun yn dweud ei bod gyda'r dinasoedd gorau i fyw ynddi yn Ewrop. Teithiwyd cryn bellter ers y dyddiau hynny genhedlaeth yn ôl pan oedd y ddinas yn ymrafael â heriau dad-ddiwydiannu.

Ein huchelgais yw sicrhau ar gyfer y cenedlaethau i ddod y bydd Caerdydd yn lle hyd yn oed gwell i drigolion a gweithwyr, lle y mae manteision twf yn cyrraedd pob dinesydd, ein rhanbarth a'n cenedl.

Rydym yn cydnabod bod heriau mawr o'n blaenau. Y blaenaf oll o'r rhain yw anghydraddoldeb. Mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn y ddinas yn rhy fawr, ac mae'n tyfu. Mae'r tlodi yma'n effeithio'n ddifrifol ar ormod o fywydau, mae'n gosod pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ac mae'n torri'r rhwymau sy'n helpu i greu cymdeithas gref. Bydd sicrhau y gall cymaint o bobl â phosib fanteisio ar dwf y ddinas yn rhan ganolog o waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Bydd hefyd yn bwysig sicrhau bod Caerdydd yn tyfu mewn modd cynaliadwy.

Mae'r ffaith bod cymaint o bobl yn dewis byw a gweithio yng Nghaerdydd yn newyddion da, ond bydd twf yn rhoi straen ar seilwaith y ddinas ac o ganlyniad iddo bydd gofynion newydd i'n gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol.

A ninnau'n arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus, gwyddom na all ymdrechion un sefydliad ar ei ben ei hun ddatrys llawer o'r problemau cymhleth sydd o'n blaenau. P'un ai amddiffyn ein plant mwyaf agored i niwed, helpu'r rheiny sy'n ddigartref, mynd i'r afael â radicaleiddio neu gefnogi pobl hŷn i fod yn hapus ac iach yn eu cartrefi eu hunain, gŵyr pawb ohonom nad oes gennym ni na'r holl atebion na'r ffordd o ateb yr heriau a wynebwn. Rhaid i ni weithio ar y rhain, gyda'n gilydd

Gyda'n gilydd gallwn wneud Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo ar gyfer ein trigolion i gyd. Dinas lle mae cyfle gan bob dinesydd, waeth beth fo'i gefndir, i gyflawni ei botensial a'r gallu i gyfrannu at, a manteisio ar, lwyddiant y ddinas.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn gwneud i hyn ddigwydd.



**Huw Thomas**
**Cadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Arweinydd Cyngor Caerdydd**



**Maria Battle**
**Is-Gadeirydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

## "Gyda'n gilydd gallwn wneud Caerdydd yn lle gwych i fyw ynddo i'n holl breswylwyr"

# Cyd-destun

**Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd?**

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd (BGC Caerdydd) yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y ddinas a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau at ei gilydd, gan gynnwys y rhai hynny o'r Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, y Trydydd Sector a'r gwasanaethau Tân, Heddlu a Phrawf. Diben y BGC yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Caerdydd drwy gryfhau gweithio ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus y ddinas.

**Beth yw Cynllun Lles?**

Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi blaenoriaethau BGC Caerdydd o ran camau gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf, a thu hwnt. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y meysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wirioneddol angen gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol y ddinas, a chyda dinasyddion Caerdydd.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Amcanion Lles, blaenoriaethau lefel uchel y mae BGC Caerdydd wedi nodi'n bwysicaf. Mae hefyd yn cynnwys 'Ymrwymiadau', neu gamau ymarferol y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, ar y cyd, yn eu cyflawni dros y 5 mlynedd nesaf. Felly, dylid ystyried y Cynllun Llesiant fel dogfen ategol at gynlluniau strategol bob aelod o'r BGC **(gweler Atodiad 1)**, gan ganolbwyntio ar ddarparu 'mantais gydweithredol' mewn meysydd gwahanol o fywyd y ddinas a gwasanaethau cyhoeddus sy'n trawstorri pob gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol.

Mae'r Cynllun yn ymateb i sylfaen dystiolaeth amrywiol ar ansawdd bywyd a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd, a sut y gallai'r rhain newid dros y blynyddoedd i ddod.  Mae hyn yn cynnwys:

- Yr Asesiad Llesiant: astudiaeth gynhwysfawr o ansawdd bywyd yng Nghaerdydd a gynhaliwyd yn 2017 (dolen)
- Barn dinasyddion Caerdydd: rhaglen ymgysylltu o ran datblygiad y cynllun **(gweler Atodiad 2)**
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Caerdydd: adroddiad ar gyfer y BGC sy'n nodi'r tueddiadau hirdymor sy'n wynebu Caerdydd a'r effaith y bydd y rhain yn eu cael ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru sydd dan sylw yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'n gofyn am waith ar y cyd gan wasanaethau cyhoeddus drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella lles pob ardal Awdurdod Lleol ac i gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol. Gellir dod o hyd i gyfraniad y Cynllun hwn a'i Ymrwymiadau yn erbyn y nodau llesiant Cenedlaethol yn **Atodiad 3**.

Mae wedi'i ddylunio i helpu i wneud cymunedau lleol yn well ac i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cynaliadwy, a bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl tua'r tymor hir yn fwy, gweithio gyda phobl a chymunedau a'i gilydd yn well, ac ymdrechu i atal problemau rhag digwydd drwy ddulliau mwy cydgysylltiedig (y 'pum ffordd o weithio').

Mae'r cynllun yn disgrifio at ba un o'r nodau llesiant cenedlaethol y mae pob amcan llesiant a nodwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn cyfrannu. Yn yr un modd, ni ddylid ystyried yr Amcanion Llesiant a gynhwysir yn y cynllun hwn ar eu pennau eu hunain, ond fel rhaglen newid gydfuddiannol a fydd, ar y cyd, yn helpu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd i ymateb i'r pwysau sydd arnynt a gwella bywydau pobl Gaerdydd, yn enwedig dinasyddion y ddinas sydd fwyaf agored i niwed.

**Pam y mae angen Cynllun Lles arnom?**

Mae Caerdydd yng nghanol cyfnod o newidiadau cyflym. Mae'r ddinas yn wynebu cyfres o heriau difrifol, er enghraifft sicrhau bod twf cyflym poblogaeth y ddinas a'i llwyddiant economaidd yn helpu pob dinesydd; sut y gellir cau'r bwlch rhwng trigolion mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig y ddinas; gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus y ddinas a'i seilweithiau'n wydn yn ystod y twf hwn; a darparu gwasanaethau cyhoeddus rhagorol, yn enwedig ar gyfer pobl fwyaf bregus y ddinas mewn cyfnod o gynni ariannol.

Ni all unrhyw wasanaeth cyhoeddus unigol ymateb i'r heriau hyn ar ei ben ei hun. Bydd angen partneriaeth weithio agor rhwng aelodau BGC Caerdydd a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac yn bwysicaf, dinasyddion Caerdydd.

**Sut y gwnaethom ddatblygu'r Cynllun Llesiant?**

O ystyried Caerdydd heddiw a Chaerdydd y dyfodol, nododd yr Asesiad Llesiant yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r ddinas. Gwnaeth y canfyddiadau hyn, yr adborth o'r ymgynghoriad a'r blaenoriaethau ar gyfer ei sefydliadau sy'n aelodau ddarparu'r cyd-destun i'r BGC Gaerdydd ddatblygu ei amcanion a'i 'Ymrwymiadau' llesiant.

Cynhyrchwyd Cynllun Llesiant drafft ar gyfer ymgynghoriad, a redodd rhwng 13 Hydref 2017 a 5 Ionawr 2018. Roedd gweithgareddau ymgysylltu'n cynnwys arolwg ar-lein a chyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu a grwpiau ffocws gyda grwpiau a chymunedau na chlywir ganddynt yn aml, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, grwpiau anabl a'r Cyngor Ieuenctid. Hefyd, roedd yr arolwg blynyddol i ddinasyddion, sef Holi Caerdydd, yn cynnwys am y tro cyntaf gyfres o gwestiynau am lesiant dinasyddion a'u boddhad â bywyd yng Nghaerdydd, wedi'u halinio â'r cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.
Adolygwyd a diwygiwyd y cynllun Llesiant drafft, gan ystyried canfyddiadau'r gweithgareddau ymgysylltu hyn a'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau sy'n rhanddeiliad ar draws y ddinas.

**Mesur Cynnydd**

Er mwyn mesur cynnydd o ran gwella llesiant pobl Caerdydd, caiff cynnydd yn erbyn bob amcan llesiant ei fesur gan ddefnyddio cyfuniad o ddangosyddion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Hefyd, bydd y BGC Gaerdydd yn mesur llesiant pobl Gaerdydd a gofnodwyd yn yr arolwg Holi Caerdydd blynyddol gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Boddhad â bywyd
- Teimlo'n werth chweil
- Hapusrwydd
- Pryder

Adroddir ar y dangosyddion hyn bob blwyddyn gyda diweddariadau ar gynnydd yn erbyn dangosyddion unigol a gyhoeddir wrth i ddata ddod ar gael.

Mae'r ddogfen dechnegol yn **Atodiad 4** yn rhoi syniad o ba un a ellir dadelfennu'r data yn ôl ardal leol, grŵp cydraddoldeb a gwybodaeth gyd-destunol arall ai peidio, a fydd yn cynorthwyo'r gwaith dadansoddi.



# Caerdydd Heddiw ac Yfory

# Caerdydd Heddiw

Mae gan Gaerdydd boblogaeth o 361,500 o bobl ac mae'n un o brif ddinasoedd Prydain sy'n tyfu gyflymaf. Mae hi wrth wraidd Prifddinas Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys 1.5 miliwn o bobl, ac yn cyfrif am bron chwarter (24%) o'r boblogaeth hon.

Mae Caerdydd heddiw yn ddinas gymharol gyfoethog, diogel, gwyrdd ac iach. Mae prifddinas Cymru bob amser wrth frig polau, arolygon ac adolygiadau o ansawdd bywyd dinasoedd yn y DU ac Ewrop. Caiff diwylliant, chwaraeon, cyfleusterau siopa a mannau gwyrdd a chyhoeddus Caerdydd eu sgorio gan ei dinasyddion ei hun ymhlith y gorau yn Ewrop ac mae trigolion hefyd yn gyson fodlon ag ansawdd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus yn y ddinas, yn enwedig o'u cymharu â dinasoedd Ewropeaidd eraill.

Mae economi'r ddinas yn tyfu. Mae swyddi a busnesau yn cael eu creu, mae diweithdra ar ei lefel isaf y degawd hwn, mae nifer yr ymwelwyr yn tyfu bob blwyddyn ac mae lefelau sgiliau ar draws bob lefel cyrhaeddiad yn uchel. Mae'r brifddinas yn chwarae rôl hanfodol wrth greu swyddi ar gyfer y dinas-ranbarth ehangach, ac mae 2 allan o 3 swydd newydd sydd wedi'u creu yn y Brifddinas-ranbarth dros y 10 mlynedd ddiwethaf wedi'u creu yng Nghaerdydd.

Mae gan Gaerdydd hanes hir o fod yn ddinas agored, groesawgar ac amlddiwylliannol. Gyda 19.7% o boblogaeth y ddinas yn dod o leiafrif ethnig, a chyda dros 100 o ieithoedd yn cael eu siarad yn y ddinas, Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru o bell ffordd. Mae hi hefyd yn ddinas ddiogel. Dros y degawd diwethaf, mae trosedd wedi gostwng yn sylweddol, a bu llai o fyrgleriaethau, achosion o ddifrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Gellid disgrifio pobl yng Nghaerdydd heddiw yn iachach nag erioed o'r blaen. Mae lefelau iechyd cyffredinol yn uchel a disgwyliad oes dynion a menywod yn parhau i godi. Rhagwelir y bydd menywod yng Nghaerdydd yn byw'n hirach na menywod yn y rhan fwyaf o'r 'Dinasoedd Craidd', er bod dros hanner y boblogaeth dan bwysau, dros bwysau neu'n ordew a bod cyfraddau ysmygu ac yfed yn dal i fod yn uchel.



# Caerdydd Yfory: Tueddiadau, Cyfleoedd a Heriau

Yn ôl rhagamcanion, bydd poblogaeth Caerdydd yn tyfu mwy na 20 % dros yr 20 mlynedd nesaf, ac mae hynny'n gynt nag unrhyw ddinas Brydeinig fawr arall heblaw Llundain. Mae rhagamcanion yn darogan twf mwy ym mhoblogaeth Caerdydd (73,000 o bobl), ac mae hynny'n fwy na rhagamcanion y 21 o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru at ei gilydd (69,000).

Bydd y twf hwn yn dod â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sylweddol i Gaerdydd a'r rhanbarth ehangach. Mae poblogaeth ifanc a medrus yn argoeli'n dda ar gyfer cyfnod o lewyrch i economi'r ddinas, ac mae'n gallu ei gwneud yn bosibl symud i gyfeiriad newydd a datblygu economi mwy arloesol, cynhyrchiol a charbon isel. Bydd angen y fath hon o economi ar y ddinas os bydd am ymateb i'r amgylchedd economaidd cymhleth ac ansicr y mae Brexit yn ei nodweddu, ynghyd ag ystyriaethau parhaus megis globaleiddio, cynni ariannol yn sector cyhoeddus a newidiadau cyflym ac anghyson yn y byd technolegol.

Bydd yn her sylweddol sicrhau bod y manteision o dwf economaidd yn bellgyrhaeddol. Mae gormod o bobl yng Nghaerdydd yn ei chael yn anodd tynnu deupen llinyn ynghyd, ac mae'r tlodi hwn yn taflu cysgod dros fywydau pobl. Er enghraifft, disgwylir i ddisgwyliadau oes y dynion tlotaf yng Nghaerdydd gynyddu, ond yn ôl rhagamcanion, bydd disgwyliadau oes iach yn gostwng. Heb newid cyfeiriad tuag at economi mwy cynhwysol lle y mae pob dinesydd yn teimlo bod modd iddo gyfrannu ac elwa ar dyfiant economaidd, a heb leihad yn y bwlch rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf, mae'n annhebygol y bydd y tueddiadau hyn yn gwella.

Bydd twf yn y boblogaeth hefyd yn arwain at fwy o straen ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas, y seilwaith ffisegol a'r amgylchedd. Mae dinas sy'n tyfu yn golygu y rhagwelir adeiladu 40,000 o dai, ac y bydd cymunedau newydd cyfan yn bodoli yn 2036 nad ydynt yn bodoli heddiw. Bydd angen i holl gymunedau'r ddinas – yn hen ac yn newydd – gael eu cynllunio a'u cysylltu'n dda, gyda digon o gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus gwych, cyfleusterau manwerthu a mannau gwyrdd. Bydd twf yn rhoi pwysau cynyddol ar seilweithiau trafnidiaeth, ynni a dŵr y ddinas a bydd angen buddsoddi, arloesi a newid ymddygiad i sicrhau y gellir rheoli'r effaith hon mewn modd cadarn.

Bydd amddifadedd a thwf yn rhoi pwysau ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas. Mae byw mewn tlodi yn peri iechyd gwael, cyflogau is, rhagor o droseddau a rhagor o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus mewn cyfnod pan fo cyllidebau'n cael eu lleihau. Ni fydd twf y ddinas yn digwydd yn gyfartal ym mhob oedran a demograffeg, a disgwylir i nifer y bobl ifanc a'r bobl hŷn gynyddu'n sylweddol. Mae'r rhain yn grwpiau sy'n dibynnu ar wasanaethau cyhoeddus fwy nag eraill. Mae ymateb i'r pwysau hyn mewn cyfnod o gyni ariannol parhaus wedi bod yn her fawr ar gyfer gwasanaethau cymunedol a chyhoeddus y ddinas, a bydd yn parhau i fod yn her hefyd.



# Her Gwasanaethau Cyhoeddus

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd angen i wasanaethau cyhoeddus addasu ac ymateb i'r twf cyflym yn y boblogaeth, anghenion a disgwyliadau sy'n newid o du dinasyddion, canlyniadau i dlodi a chyfyngiadau sylweddol a pharhaus ar adnoddau. I wneud yn siŵr bod gwasanaethau cyhoeddus y ddinas yn cyrraedd y nod yn y dyfodol, bydd angen iddyn nhw feddu ar nodweddion o'r pum egwyddor ganlynol, neu'r pum ffordd o weithio:

**Cyflawni heddiw, edrych tuag at yfory:** Mae gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn cael eu hail-lunio mewn ymateb i'r heriau hirdymor sy'n wynebu'r ddinas a byddant yn parhau i newid yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan newid yn gyfan gwbl weithiau. Mae gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn cael eu diwygio yng ngoleuni'r heriau hyn a bydd angen iddyn nhw barhau i newid dros y blynyddoedd nesaf, yn gyfan gwbl mewn rhai achosion. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau cyhoeddus yn goruchwylio meysydd angenrheidiol o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus heddiw, ac wrth wneud hynny bydd yn gwneud yn siŵr bod ei olygon ar y gorwel gan arwain y newidiadau i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cyrraedd y nod yn y dyfodol.

**Atal problemau cyn iddyn nhw ddigwydd:** AMewn ystod o wasanaethau byddwn yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar, mynd i'r afael ag achosion sydd wrth wraidd y broblem, ac anelu, pan fo modd, at atal problemau yn rhagweithiol. Bydd hyn yn golygu nodi a gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n agored i niwed er mwyn rhoi iddynt y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl, ymhell cyn cyrraedd pwynt argyfwng; bydd angen gweithio i gynnal annibyniaeth ac iechyd pobl sy'n byw yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain am gyhyd â phosibl; a bydd angen gweithio i waredu tlodi a chreu dinas sy'n fwy cynhwysol lle y mae pob dinesydd yn teimlo bod modd iddo gyfrannu at lwyddiant y ddinas a manteisio arno.

**Cysylltu ein gwasanaethau cyhoeddus:** Nid oes modd i unrhyw wasanaeth cyhoeddus ateb yr heriau y mae'n eu hwynebu ar ei ben ei hun. Boed yn cyflawni effeithlonrwydd drwy rannu adeiladau a gwaith cefn swyddfa neu drwy roi cymorth i rai o'r bobl yn y ddinas sydd fwyaf agored i niwed, bydd angen i wasanaethau cyhoeddus weithio mewn partneriaeth yn fwy eto. I wneud hynny, bydd angen cyflymu'r gwaith ar y cyd yn y gymuned drwy hybiau Cymunedol a Lles, gan uno gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector dan un to yn y cymunedau sydd fwyaf anghenus, cysylltu ein gwasanaethau er mwyn i gyflogeion y sector cyhoeddus a'r trydydd sector allu gweithio gyda'i gilydd mewn un tîm a sicrhau bod y cymorth iawn yn cael ei roi yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn.

**Grym i'r Bobl:** Nid oes modd diogelu'n cymunedau, bwrw'n targedau trafnidiaeth gynaliadwy na gofalu am y bobl sydd fwyaf anghenus drwy'r gwasanaethau cyhoeddus yn unig. Ein bwriad yw taro bargen newydd gyda dinasyddion a chymunedau fel y datblygir atebion lleol mewn partneriaeth â phobl leol gan gynnwys pobl a chymunedau yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

**Un Gaerdydd:** Mae aelodau o'r BGC yn ymrwymo i weithio tuag at y nodau a'r amcanion cyffredin yn y cynllun hwn, ac mae ein cynlluniau strategol perthnasol a'n gwaith yng nghymunedau Caerdydd yn ategu hynny. Ym mhob rhan o'n gwaith, bydd y BGC yn gweithio i wneud Caerdydd yn ddinas fwy llewyrchus, gwydn, iach, cyfiawn a chynhwysol. Prifddinas sy'n gweithio i Gymru.


Wally's
ROSSITERS
The Silver Studio
Designer Jewellery
Ian Allan
BOOK &
MODEL
SHOP
DAVID
EDWARDS




## Amcan Lles 1

# Prifddinas sy'n gweithio i Gymru

# Cyflwyniad

Caerdydd yw prifddinas economaidd, wleidyddol a diwylliannol Cymru. Yn ogystal â chwarae rôl allweddol o ran creu swyddi a denu buddsoddiad i Gymru, mae'n gartref i chwaraeon, gwleidyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddydau Cymru, yn cynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol rhyngwladol mawr, ac yn cynnig gwasanaethau cyhoeddus arbenigol i bobl y Brifddinas Rhanbarth ehangach.




Mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus. Wrth edrych i'r dyfodol byddwn yn gweithio ynghyd i sicrhau bod Caerdydd yn parhau i ddenu a darparu digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr, twristiaid, buddsoddiad, busnesau a myfyrwyr i Gymru ac i sicrhau bod Caerdydd yn cael ei hystyried fel prifddinas o arwyddocâd rhyngwladol mewn economi fyd-eang ôl-Brexit.

# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Cyfradd ddiweithdra'r boblogaeth 16+ oed sy'n economaidd weithgar (seiliedig ar fodel) |
| GVA y pen |
| Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen (Dangosydd Cenedlaethol 10) |
| Swyddi cyflogeion â thâl bob awr is na'r cyflog byw |
| Canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed â chymwysterau NVQ+ (lefel gradd neu gyfwerth) |
| Aethoch chi i ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? A wnaethoch chi ymweld â lleoliad hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Aethoch chi i amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (Arolwg cenedlaethol: 3 chwestiwn ar wahân) |
| Siaradwyr Cymraeg (Dangosydd Cenedlaethol 37) |

# Caerdydd Heddiw

Caerdydd yw pwerdy economaidd Cymru, yn chwarae rôl allweddol o ran creu swyddi a denu buddsoddiad, yn cynnig cyfleoedd diwylliannol a hamdden a gwasanaethau cyhoeddus ‘cenedlaethol’ i bobl y Brifddinas Ranbarth a Chymru.

Nid yw wastad wedi bod fel hyn. Mae Caerdydd wedi’i hailddyfeisio dros y chwarter canrif diwethaf. Mewn ymateb i ddad-ddiwydiannu, mae rhaglen o brojectau adfywio dinesig mawr o Fae Caerdydd i ailddatblygu’r sgwâr Canolog, wedi helpu i godi proffil rhyngwladol Caerdydd ac ail-leoli’r ddinas fel lle gwych i ymweld ag ef a lle hyd yn oed gwell i fyw ac astudio ynddo. Dangosodd Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA 2017 i ba raddau y mae Caerdydd yn cael ei hystyried fel Prifddinas Ewropeaidd blaenllaw. Mae economi’r ddinas yn dangos perfformiad cryf ar draws nifer o ddangosyddion pennawd, gyda thwf mewn swyddi, diweithdra ar ei lawr, nifer yr ymwelwyr ar gynnydd a thwf yn nifer y busnesau newydd.

Mae allbwn economaidd Caerdydd (Gwerth Ychwanegol Crynswth), er ei fod yn llawer uwch na rhannau eraill o Gymru, yn cymharu’n eithaf gwael â phrif ddinasoedd eraill Prydain ac y tu ôl i gystadleuwyr Ewrop. Hefyd, er bod swyddi yn cael eu creu yn economi’r ddinas – dros 20,000 yn y blynyddoedd diwethaf - nid oes digon o swyddi tâl da ‘gwerth uchel’ yn cael eu creu. Ar ben hynny ar ôl 10 mlynedd o dwf parhaus yn y blynyddoedd cyn cwymp economaidd 2008, dim ond nawr mae allbwn economaidd fesul pen – Gwerth Ychwanegol Crynswth fesul pen o’r boblogaeth – yn dychwelyd i lefelau cyn argyfwng, ac mae 25 % o weithlu’r ddinas yn ennill llai na’r Cyflog Byw. Gyda’i gilydd, mae’r ffigurau hyn yn awgrymu bod gan Gaerdydd, fel Dinasoedd Craidd eraill y DU, ei ‘bos cynhyrchedd’ ei hun i’w ddatrys.

Mae Caerdydd wrth wraidd Prifddinas Ranbarth Caerdydd o 1.5 miliwn o bobl sef chwarter (24 % ) o boblogaeth y ddinas-ranbarth. Y brifddinas yw hyb economaidd y ddinas-ranbarth, gyda bron dwy o bob tair swydd net a grëwyd yn ne-ddwyrain Cymru dros y ddeng mlynedd ddiwethaf yn cael eu creu yng Nghaerdydd. Bob dydd mae 90,000 o bobl, neu dros 40 % o weithlu’r ddinas sy’n cynnwys 200,000 o bobl – yn cymudo i mewn i Gaerdydd. Ar draws pob agwedd o fywyd - o weithio, teithio, gwasanaethau hamdden a chyhoeddus - gellir teimlo effaith Caerdydd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol ardal yr awdurdod lleol.





# Caerdydd Yfory

Mae tueddiadau byd-eang yn dangos mai mewn dinasoedd y disgwylir y twf mwyaf o ran poblogaeth a thwf economaidd yn yr 21ain ganrif, ac y bydd swyddi newydd, busnesau technolegol a phobl addysgedig a medrus yn cael eu crynhoi fwyfwy mewn dinasoedd. Mae'r tueddiadau hyn hefyd yn amlwg yng Nghymru, gyda'r mwyafrif o dwf mewn swyddi a busnesau newydd ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn digwydd yn y brifddinas. Gan edrych tua'r dyfodol, y brifddinas yw ased economaidd cryfaf Cymru a'r cyfle gorau i sicrhau llwyddiant economaidd. Yn gryno, mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus.

Mae datblygiad Caerdydd dros yr ugain mlynedd diwethaf wedi canolbwyntio ar wella ansawdd bywyd, denu pobl dalentog i fyw a gweithio yn y ddinas, ochr yn ochr â chyfres o fuddsoddiadau mawr mewn stadia chwaraeon a lleoliadau diwylliannol, a chynnal digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol cenedlaethol a rhyngwladol mawr. Rhaid i'r ddinas wneud y mwyaf o'r asedau economaidd hyn, gan adeiladu ar lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA 2017 i ddenu mwy o ddigwyddiadau ac ymwelwyr rhyngwladol, gan hefyd hyrwyddo digwyddiadau lleol sy'n adlewyrchu cymeriad Caerdydd a diwylliant Cymru, gan geisio lleihau effeithiau negyddol digwyddiadau mawr ar rai cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.

Mae'n rhaid i economi'r ddinas gael hwb ychwanegol. Er mwyn cynyddu cynhyrchedd, a diwallu her hir dymor newid ac awtomatiaeth dechnolegol, bydd hyn yn golygu symud tuag at ddenu a chreu busnesau gwerth uwch. O ystyried y lefelau sgiliau uchel a phresenoldeb tair prifysgol yn y ddinas, mae'r deunydd crai ar gyfer gwneud cynnydd yma yn barod. Mae'r momentwm a welir yn natblygiad y Sgwâr Canolog ac yn System Arloesi Prifysgol Caerdydd yn dangos bod y newid yn dechrau digwydd.

Rhaid i rôl Caerdydd fel grym economaidd y ddinas-ranbarth a'i pherthynas â'r awdurdodau lleol cyfagos, partneriaid a phoblogaethau barhau i ehangu a dyfnhau er mwyn llywio ffyniant a threchu tlodi yn y brifddinas, y Cymoedd a Chymru. Bydd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y gwaith cysylltiedig o greu Metro Caerdydd a sefydlu trefniadau llywodraethu dinas-ranbarthol effeithiol yn allweddol bwysig o ran sicrhau twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol, helpu i greu cyfleoedd swyddi, mynd i'r afael â thagfeydd, lleihau ôl-troed carbon y ddinas-ranbarth ac ymdrin â phroblemau llygredd aer.

Am y 200 mlynedd diwethaf, mae Caerdydd wedi bod yn bwynt cyswllt rhwng Cymru a'r byd. Disgwylir i Brexit daro Caerdydd yn galetach na dinasoedd eraill y DU a phob rhan arall o Gymru. Ym Mhrydain ôl-Brexit, rhaid i Gaerdydd barhau i fod y ddinas ryngwladol gynhwysol y mae wastad wedi bod, yn denu'r gorau o'r byd i Gymru, a chyflwyno'r diwydiant a'r diwylliant Cymreig gorau yng Nghymru i'r byd.

# Ein Hymrwymiadau i Gaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Cryfhau rôl Caerdydd fel prifddinas economaidd, ddiwylliannol Cymru, yn cefnogi datblygiad y Brifddinas-Ranbarth, a sicrhau bod y Fargen Ddinesig a Metro Caerdydd yn cyflawni ar gyfer pobl Caerdydd a Chymru. |
| Ceisio sicrhau bod gan Gaerdydd y cyllid a'r pwerau cyllidol sydd eu hangen arni i arwain economi Caerdydd a darparu seilwaith prifddinas a gwasanaethau ar ran pobl Caerdydd, y Brifddinas-Ranbarth a Chymru. |
| Deall effaith Brexit ar economi, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Caerdydd a datblygu ymateb y ddinas, gan gynnwys siâp unrhyw raglenni olynwyr ar gyfer ffrydiau cyllid Ewropeaidd yng Nghymru. |
| Parhau i gynnal darparu digwyddiadau mawr yn y ddinas, adeiladu ar lwyddiant Rownd Derfynol Cynghrair y Pencampwyr, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector preifat. |
| Ceisio dyblygu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd erbyn 2050 trwy gefnogi darparu Strategaethau Caerdydd Ddwyieithog. |






BUS

## Amcan Lles 2


---

# Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn

---

# Cyflwyniad

Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain, a Chaerdydd yw'r awdurdod lleol sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.  Mae dinasoedd llwyddiannus yn cynnwys y rheiny y mae pobl eisiau byw ynddynt a chroesewir y twf hwn ac mae'n arwydd o gryfder ar gyfer y ddinas. Fodd bynnag, bydd y twf hwn yn cyflwyno'i heriau hefyd, yn rhoi pwysau ar seilwaith ffisegol y ddinas, cydlyniad cymunedol, ei hamgylchedd naturiol a gwasanaethau cyhoeddus.  Bydd rheoli effeithiau'r twf hwn o ran poblogaeth a'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd gadarn a chynaliadwy yn her hirdymor fawr i Gaerdydd.




# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Allyriadau CO2 fesul pen o'r boblogaeth (BEIS) |
| Rhaniad moddol trafnidiaeth gynaliadwy |
| Lefelau Nitrogen Deuocsid (NO2) a lefelau llygredd mater gronynnol (PM10, PM2.5) yn yr aer |
| Defnydd o/agosrwydd at fan naturiol hygyrch:<br>• Ansawdd: Nifer y safleoedd sy'n bodloni meini prawf Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.<br>• Hygyrchedd: Canran y bobl sy'n byw o fewn pellter cerdded o fan gwyrdd o ansawdd uchel. |
| Nifer yr eiddo yng Nghaerdydd sydd wedi cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd am Lifogydd |
| Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff dinesig |

# Caerdydd Heddiw

Dros y 10 mlynedd diwethaf tyfodd poblogaeth Caerdydd gan 12%, gan ei wneud yn un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf ym Mhrydain. Disgwylir i hyn barhau. Dros y 20 mlynedd nesaf, disgwylir i Gaerdydd dyfu'n gynt nag unrhyw ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru ac yn gynt na'r holl ddinasoedd mawr eraill ac eithrio Llundain.

Bydd hyn yn rhoi pwysau ar seilwaith trafnidiaeth, ynni a dŵr y ddinas. Mae trafnidiaeth yng Nghaerdydd yn cael ei ddominyddu gan siwrneiau car preifat, gyda chanran cymharol fach o gymudwyr yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a lefelau is o feicio a cherdded o gymharu â nifer o ddinasoedd craidd eraill.

Hefyd, mae dros 9,000 o bobl yn teithio i mewn ac allan o Gaerdydd bob dydd o ardaloedd awdurdodau lleol cymdogol, gyda 80% ohonynt yn gwneud hynny yn y car.

Mae teithio yn y ddinas yn un o'r materion pwysicaf i ddinasyddion Caerdydd, gyda 74% yn teimlo bod problemau teithio a thrafnidiaeth yng Nghaerdydd yn ddifrifol neu'n ddifrifol iawn. Mae dibyniaeth y ddinas ar geir hefyd yn cyfrannu at allyriadau carbon Caerdydd yn bod yn uchel o'i chymharu â nifer o ddinasoedd eraill Prydain gyda rhai wardiau canol y ddinas - yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas - yn arbennig o agored i lefel uchel o lygredd Nitrogen Deuocsid.

Mae mannau gwyrdd Caerdydd ymysg ei hasedau pwysicaf. Cafodd Caerdydd 11 baner werdd am ei pharciau yn 2017 ac roedd 80% o bobl yn fodlon â'n parciau a'n mannau agored, er bod mynediad i fannau gwyrdd yn amrywio ledled y ddinas.

Mae mynediad i'r awyr agored yn un o'r ffactorau mwyaf y mae dinasyddion yn ei nodi fel rhywbeth sy'n cyfrannu at eu lles. Yn ogystal â chynnig lle diogel i blant chwarae a bod yn actif o oed cynnar gyda manteision hir dymor o ran iechyd corfforol a meddwl, mae'r amgylchedd naturiol yn cyfrannu at gymunedau cryf a chydlynol, yn cynnig lle ar gyfer rhyngweithio ac ymgysylltu a gweithgareddau cymunedol ar y cyd megis garddio a thyfu bwyd.

Mae 'man glas' Caerdydd - ei dyfrffyrdd, afonydd a draenio, a Bae Caerdydd, hefyd yn ased enfawr i'r ddinas, ond fel dinas wedi'i lleoli ar lannau afonydd ac ar yr arfordir, mae Caerdydd mewn perygl o lifogydd yn y dyfodol. Er yr ystyrir bod canran fach o dai yng Nghaerdydd mewn perygl uchel o lifogydd, mae rhai cymunedau mewn perygl ac mae nifer o'r rhain yn 'Arc Deheuol' mwy difreintiedig y ddinas.



# Caerdydd Yfory

Bydd twf Caerdydd yn creu cyfleoedd economaidd a diwylliannol mawr. Bydd hefyd yn rhoi pwysau ar seilwaith a gwasanaethau cyhoeddus ein dinas. Bydd manteisio ar y cyfle am dwf a sicrhau bod y manteision hyn yn cael ei deimlo'n eang, wrth leihau ei effeithiau, yn diffinio datblygiad Caerdydd dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn nodi y bydd angen adeiladu 41,000 o gartrefi newydd a chreu 40,000 o swyddi newydd erbyn 2026. Yn fuan, bydd Cymunedau cyfan newydd yn cael eu creu nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Bydd hi'n flaenoriaeth strategol sicrhau bod y cymunedau hyn wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u cysylltu'n dda, gyda mynediad hawdd at wasanaethau Cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a mannau gwyrdd a glas.

Bydd angen newid i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. O ran twf, bydd cynnydd net o 32 % mewn traffig, cynnydd rhagamcanol o 20 % yn nifer y bobl sy'n teithio i'r gwaith a chynnydd cysylltiedig o tua 41 % mewn amseroedd teithio, yn rhoi straen ar ffyrdd sydd eisoes yn orlawn. Bydd angen 'rhaniad moddol 50:50' erbyn 2021 (50 % o deithiau i'w gwneud gan ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy) a rhaniad moddol hyd yn oed anoddach 60:40 erbyn 2026. I fodloni'r targedau uchelgeisiol hyn bydd angen buddsoddi mewn systemau trafnidiaeth gyhoeddus, seilwaith beicio a cherbydau glanach, ochr yn ochr â newid mewn ymddygiad, wedi'i gefnogi gan brif gyflogwyr a gwasanaethau cyhoeddus. O wneud hyn yn iawn, rhoddir hwb i economi'r ddinas, i ansawdd bywyd cyffredinol a gellir disgwyl iddo gyflwyno buddion pwysig o ran iechyd drwy lefelau cynyddol o feicio a cherdded a gwell ansawdd aer.

Bydd angen rhoi ystyriaeth i ganlyniadau newid hinsawdd a chyfnodau o dywydd eithafol, megis llifogydd a thywydd poeth, ym mhob agwedd ar reoli twf Caerdydd ar gyfer y dyfodol. Bydd angen lliniaru'r risg o lifogydd, gan gynnwys llifogydd afonydd a dŵr wyneb, ar gyfer cymunedau newydd y ddinas a rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ac â'r risg mwyaf, gan sicrhau bod adeiladau, seilwaith a chysylltiadau trafnidiaeth allweddol yn cael eu hamddiffyn. Rhaid rheoli pwysau, megis cynefin sydd wedi dirywio a phwysau ar ansawdd dŵr oherwydd carthffosiaeth, carthffosydd cyfunedig yn gorlifo, camgysylltiadau a stadau diwydiannol wrth i Gaerdydd dyfu. Gan fod disgwyl i'r defnydd o seilweithiau ynni fod yn fwy na phob prif ddinas arall ym Mhrydain, bydd angen archwilio dewisiadau ar gyfer cynyddu'r gwaith o gynhyrchu ynni'n lleol.

Wrth i'r ddinas dyfu bydd yn creu mwy o wastraff. Mae gan Gaerdydd hanes da o ailgylchu a chompostio, gyda chynnydd o ran ailgylchu o 4 % yn 2001 i 58 % yn 2017. Bydd angen parhau â'r gwelliannau hyn er mwyn i Gaerdydd ddiwallu targedau Llywodraeth Cymru o ailgylchu 64 % o wastraff erbyn 2020, gan godi i 70 % erbyn 2025. Bydd angen canolbwyntio ar leihau'r gwastraff a gynhyrchir yn y lle cyntaf, gan annog mwy o gartrefi a busnesau i ailgylchu, a chaffael nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy.

Bydd twf hefyd yn rhoi straen ar seilweithiau cymdeithasol y ddinas, gan gynnwys ysgolion, ysbytai a phractisiau Meddyg Teulu. Er enghraifft, bydd twf yn nifer y plant oedran ysgol yn golygu y bydd angen rhagor o fuddsoddiad sylweddol i adeiladu ysgolion newydd ac adnewyddu a gwella ysgolion presennol. Er bod Caerdydd yn ddinas gymharol ifanc, efallai mai'r newid mwyaf arwyddocaol fydd y twf o 75 % yn nifer y bobl dros 75 oed. Bydd mabwysiadu dull integredig hirdymor tuag at gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau newydd y ddinas yn flaenoriaeth felly.

# Ein Hymrwymiadau i Gaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Mabwysiadu dull integredig o ran cynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng nghymunedau newydd y ddinas. |
| Ceisio sicrhau bod 50 % o'r holl siwrneiau yng Nghaerdydd drwy ddulliau teithio cynaliadwy gan gefnogi'r broses o ddatblygu a darparu Strategaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd. |
| Cymryd ymateb dinas eang i lygredd aer trwy gefnogi ar ddatblygu a darparu Strategaeth Aer Glân Caerdydd. |
| Sicrhau bod y ddinas yn barod am achosion o dywydd eithafol sy'n gysylltiedig â Newid yn yr Hinsawdd gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ac annog newid ymddygiad ymhlith preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr â'r ddinas. |
| Ceisio lleihau'r ôl-troed carbon ar wasanaethau cyhoeddus y ddinas drwy weithio i sicrhau bod yr holl adeiladu cyhoeddus yn rhai ynni a gwastraff effeithlon. |
| Archwilio'r posibiliad ar gyfer diosg buddsoddiadau cyhoeddus o gwmnïau tanwydd ffosil. |






## Amcan Lles 3

# Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymusol

# Cyflwyniad

Mae cymunedau diogel, hyderus a grymusol wrth wraidd lles. Mae ganddynt rôl unigryw i'w chwarae pan ddaw i'r hyn sydd bwysicaf i ni - ein hamgylchedd, diogelwch, lles, iechyd a hapusrwydd. Hefyd, mae cymunedau'n aml yn meddu ar y wybodaeth, sgiliau, brwdfrydedd, creadigrwydd a dealltwriaeth o'r ardal leol nad oes gan ddarparwyr gwasanaeth mohono. Mae sicrhau bod cymunedau lleol yn ddiogel a grymusol felly'n rhan allweddol o ddinas lwyddiannus.




# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Pobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (Dangosydd Cenedlaethol 27) |
| Canran sy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol) |
| Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn eu cartrefi, wrth gerdded yn eu hardal leol, ac wrth deithio) (Arolwg Cenedlaethol) |
| Cyfran y troseddwyr sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc) ar y cyfan dros y flwyddyn ddiwethaf |
| Canran y cleientiaid yn defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd |
| Cyfraddau gwirfoddoli |

## Caerdydd Heddiw

Mae gan Gaerdydd hanes hir o fod yn ddinas agored â chymunedau cryf ac amrywiol. Gyda 19.7 % o boblogaeth y ddinas yn dod o leiafrif ethnig, a chyda dros 100 o ieithoedd yn cael eu siarad yn y ddinas, mae eisoes yr awdurdod lleol ardal fwyaf amrywiol yng Nghymru, a gyda thraean o boblogaeth yr ysgolion bellach yn hanu o leiafrif ethnig, bydd hyd yn oed yn fwy amrywiol yn y dyfodol. Bydd y ddemograffeg newidiol yma yn ychwanegu at amrywiaeth a bywiogrwydd diwylliannol y ddinas, ond bydd ffocws parhaus ar gydlyniad cymunedol – yr ymdeimlad o berthyn a deimlir gan gymunedau, a'r perthnasau cryf a chadarnhaol oddi fewn iddynt – yn dod yn bwysicach byth oherwydd bydd materion rhyngwladol mawr fel Brexit, newid yn yr hinsawdd, mudo eang a therfysgaeth yn cael effaith leol.

Mae gan Gaerdydd sylfaen gref i adeiladu arno o ran ymgysylltiad dinesig gydag ychydig dros chwarter o bobl yng Nghaerdydd yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd gwirfoddol, trwy elusennau, grwpiau ieuenctid, grwpiau amgylcheddol a ffydd. Mae gwirfoddoli yn gwneud cymunedau yn fwy gwydn, yn helpu pobl i ennill hyder, dysgu sgiliau a rhoi'n ôl i'r rheiny o'u cwmpas, sydd o fudd i gydlyniad cymunedol. Mae hefyd yn gwella gallu pobl i ymdopi ag iechyd gwael ac annog ffordd o fyw iach.

Mae hefyd lefelau uchel o ddiddordeb mewn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar y ddinas yn gyffredinol. Er mai 43.6 % ar gyfartaledd oedd y ganran presenoldeb yng Nghaerdydd ar draws ei wardiau yn Etholiadau Lleol Cymru 2017, roedd 70.4 % wedi pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol y DU fis yn ddiweddarach a 69.7 % yn Refferendwm yr UE yn 2016. Yng nghyd-destun caledi a phenderfyniadau megis Brexit a diwygio llywodraeth leol, mae'n bwysig iawn bod pobl yn cael dweud eu dweud ac ar y lefel leol yn cael y cyfleoedd i chwarae rôl yn eu cymunedau.

Mae Caerdydd yn ddinas ddiogel. O ystyried twf o ran poblogaeth, yn gyffredinol mae trosedd wedi gostwng gan 29 % dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn syml, mae preswylwyr Caerdydd draean yn llai tebygol o ddioddef trosedd na degawd yn ôl. Ond, ni chafwyd yr un lefel o ostyngiad o ran ofni trosedd. Nid yw preswylwyr yn teimlo'n hyderus eu bod nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau yn ddiogel. Mae merched yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu cymunedau o gymharu â dynion, ac mae preswylwyr yn Nwyrain Caerdydd a phobl anabl ymysg y rheiny sydd leiaf tebygol o gredu bod Caerdydd yn ddinas ddiogel. Ac er bod Caerdydd yn ddinas ddiogel, mae nifer fach o bobl - yn enwedig plant a merched - yn destun camdriniaeth, trais ac ecsploetiaeth, gydag, er enghraifft, nifer uwch o droseddau domestig wedi'u cofnodi yn Ne-orllewin Caerdydd a De-ddwyrain Caerdydd.

Mae Caerdydd yn gartref i un o bum carchar Cymru ac mae tua hanner y troseddau yn y DU yn cael eu cyflawni gan bobl sydd eisoes wedi bod drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae cyfradd aildroseddu Caerdydd, sef 32.8 % yn 2015, yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r rhan fwyaf o'r Dinasoedd Craidd eraill. Mae aildroseddu'n costio rhwng £9.5 a £13 biliwn y flwyddyn i'r cyhoedd yn y DU. Gall effaith aildroseddu fod yn ddinistriol a hirdymor, nid yn unig i ddioddefwyr trosedd a'u teuluoedd a'r gymuned ehangach, ond hefyd i'r troseddwr a'i deulu.

“Mae cymunedau diogel, hyderus a grymusol wrth wraidd lles”

# Caerdydd Yfory

Mae ymyrraeth gynnar a chamau cadarnhaol, prydlon wrth wraidd adeiladu cymunedau diogel, hyderus a gwydn, ac mae'n allweddol i leihau'r galw ar ein holl wasanaethau cyhoeddus. Hefyd, mae cymunedau'n aml yn meddu ar y wybodaeth, sgiliau, brwdfrydedd a chreadigrwydd – ochr yn ochr â dealltwriaeth o'r ardal leol - nad oes gan ddarparwyr gwasanaeth mohono. Mae'n hanfodol felly bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwrando ar, yn deall, ac yn ymateb i stori pob cymuned.

Bydd grymuso cymunedau a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gryf angen dull newydd tuag at 'weithio'n lleol'. Bydd y dull newydd yn canolbwyntio ar gydgysylltu gwasanaethau cymunedol, cydlynu datblygu gofodol a sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus yn cael yr effaith fwyaf bosib. Bydd hyn yn golygu mwy o gydlynu gwasanaethau cyhoeddus 'ar lawr gwlad', drwy gydleoli timau statudol a'r trydydd sector a chreu systemau a diwylliannau ar y cyd. Bydd angen ategu hyn drwy ddefnyddio adnoddau sydd ar gael, fel bod holl gyflogeion y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys athrawon, heddweision, ymarferwyr iechyd, gweithwyr cymunedol a gweithwyr ieuenctid i gyd yn gweithio yn rhan o un tîm i sicrhau bod y gwasanaeth cywir yn cael ei gyflenwi ar yr adeg iawn, yn y ffordd gywir, a bod atebion yn cael eu canfod ymhell cyn cyrraedd y pwynt argyfwng, neu pan fo angen y gwasanaethau brys.

Mae gan bob cymuned wahanol ddemograffeg, cryfderau a gwendidau, ac felly bydd angen cynllunio gwasanaethau cyhoeddus fel eu bod yn adlewyrchu ac yn ymateb i'r gwahaniaethau hynny, wedi'i lywio gan dystiolaeth orau. Bydd hyn yn golygu canolbwyntio mwy ar le a phryd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi, yn dibynnu ar anghenion penodol bob ardal, a cheisio atal lle y bo'n bosibl, gan ddatblygu atebion lleol mewn partneriaeth â phobl leol a rhwng y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Bydd hefyd angen ymgysylltu â chymunedau ar welliannau iechyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gweithio gyda'r Trydydd Sector i greu mwy o gyfleoedd a rhoi mwy o gymorth i fusnesau, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol cymdeithasol drwy gynlluniau sy'n cynnwys y gymuned. Nid yn unig y bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau cymunedol ond bydd hefyd yn grymuso unigolion i fynd ati i gymryd rhan yn llesiant eu cymunedau.

Mae'r sylfeini ar gyfer y dull hwn eisoes ar waith, ac mae'r hybiau cymunedol a llesiant yn enghreifftiau da o gydweithio cymunedol. Mae'r hybiau yn dod â gwasanaethau cyngor a chymorth y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar ei gilydd, fel eu bod i gyd o dan un to yng nghanol rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.

Er mwyn amddiffyn dinasyddion a chymunedau mwyaf agored i niwed y ddinas bydd angen dull cyfunol, ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, a gyda chymunedau a theuluoedd. Er mwyn ymdrin â masnachu pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, cam-drin domestig a masnachu cyffuriau'n anghyfreithlon, bydd angen ymyrraeth gynnar a chamau cadarnhaol prydlon, ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol, i roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl. Yn yr un modd, yr unig ffordd o gael gwared ar ffurfiau o radicaleiddio ac eithafiaeth yw drwy waith partneriaeth agos â sefydliadau a chymunedau, gan ddatblygu ymddiriedaeth a hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol. Bydd Caerdydd yn meithrin cydlyniad a dealltwriaeth cymunedol, lle mae unigolion yn cael y cyfle i gysylltu â'u cymunedau amrywiol.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i'r System Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae llwyddiant y rhaglenni atal a'r gostyngiad o ran cyfraddau'r bobl ifanc yn y ddalfa yn golygu bod carfan fwy cymhleth, ond llai, o bobl ifanc sy'n cael eu rheoli yn y gymuned, y mae angen yr ymyraethau mwyaf dwys arnynt. Er mwyn ymdrin â'u troseddu a'u hail-droseddu a sicrhau eu bod yn ddiogel, bydd angen ymateb cydlynol ac effeithiol i faterion newydd ledled y ddinas, megis cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, trosedd ac ecsbloetio wedi'i drefnu, trosedd cyllyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# Ein Hymrwymiadau i Gaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Buddsoddi mewn a chynnwys cymunedau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector lleol, integredig mewn hybiau cymunedol a lles. |
| Rhoi llais cryfach i bobl wrth siapio gwasanaethau cyhoeddus drwy ddatblygu a chyflenwi Cynlluniau Datblygu a Chyfranogiad Cymunedol wedi'u cyd-greu. |
| Hyrwyddo gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol, gan gynnwys datblygu porth gwirfoddoli ar gyfer y ddinas. |
| Amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed, gan fabwysiadu dulliau integredig i ymdrin â masnachu pobl, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin domestig. |
| Ymdrin â radicaleiddio yn ein cymunedau drwy ddatblygu ymddiriedaeth a hyrwyddo amgylchedd lle mae gan bobl yr hyder i roi gwybod am ymddygiad eithafol. |
| Lleihau troseddu a gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer y grŵp 18-25 oed drwy ddatblygu dull integredig, lleol i reoli troseddwyr. |
| Lleihau'r defnydd o gyffuriau a chamddefnyddio sylweddau a lefelau aildroseddu, a gwella lefelau adfer parhaus, hirdymor, drwy gyflenwi rhwydwaith o wasanaethau cymorth adfer a chamddefnyddio sylweddau wedi'u comisiynu ar y cyd. |
| Sicrhau bod newydd-ddyfodiaid o'r DU a thramor yn cael eu croesawu ac yn gallu adeiladu bywydau newydd yng Nghaerdydd, gan gynnwys darparu'r project 'Dinasoedd Cynhwysol'. |
| Darparu economi nos ddiogel a bywiog, gan weithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwella Busnes. |





TEAM GB

## Amcan Lles 4

# Mae Caerdydd yn lle gwych i fagu plant

# Cyflwyniad

Mae Caerdydd eisoes yn lle da i'w phlant a'i phobl ifanc dyfu i fyny ynddo, gyda system ysgol sy'n gwella'n gyflym ochr yn ochr â'r manteision y mae prifddinas yn ei chynnig megis ystod eang o gyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliannol. Fodd bynnag mae'r anghydraddoldeb sy'n amlwg yng Nghaerdydd yn gallu cael effaith sylweddol ar fywydau plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, a phlant sydd dan anfantais – p'un a thrwy anabledd, tlodi, amgylchiadau teulu, salwch, esgeulustod neu gamdriniaeth – bydd angen help a chymorth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector, ac o fewn eu cymunedau.




# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran y plant o deuluoedd incwm isel |
| Canran y plant rhwng 4 a 5 sy'n bwysau iach |
| Nifer y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela) |
| Lles meddwl: plant ac oedolion ifanc, ac oedolion (Dangosydd Cenedlaethol 29) |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pwnc Craidd [gan gynnwys bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn PYADd a phlant nad ydynt yn derbyn PYADd ar lefel ALl] |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn Cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg [gan gynnwys bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn PYADd a phlant nad ydynt yn derbyn PYADd ar lefel ALl] |
| Ymadawyr ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (Gyrfa Cymru) |
| Canran y Plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol |

# Caerdydd Heddiw

Mae Caerdydd eisoes yn lle da i fagu plant a phobl ifanc. Yn benodol, nododd pobl ifanc Caerdydd rai o'r pethau gwych canlynol am fyw yn y brifddinas, gan gynnwys ei gwasanaethau iechyd da, ei chyfradd droseddau isel, ei chymunedau cynhwysol, cryf a'r ffaith y ceir mynediad rhwydd at fannau gwyrdd, chwaraeon, gweithgareddau hamdden a diwylliannol.

Caiff addysg ei nodi'n gyson fel prif flaenoriaeth i bobl ifanc y ddinas, ac mae profiad plentyn o addysg yn un o'r ffactorau pwysicaf sy'n effeithio ar eu cyfleoedd bywyd a llesiant yn y dyfodol. Mae perfformiad yn system ysgol y ddinas yn gwella nawr ar ôl blynyddoedd o danberfformio. Mae perfformiad TGAU yn dal i wella gyda 62.5% o ddisgyblion Caerdydd yn 2015/16 yn cyflawni o leiaf pum gradd A* i C, gan gynnwys mathemateg a Chymraeg neu Saesneg, cynnydd o 12.6 pwynt canran dros y pedair blynedd diwethaf.

Er bod Caerdydd yn ganolbwynt masnachol i economi Cymru ac yn cynnwys llawer o gymunedau mwyaf ffyniannus y genedl, mae dros chwarter y plant dibynnol o dan 20 oed yn y ddinas yn byw mewn tlodi, gan amrywio o 5.2% yn unig yn Rhiwbeina i bron hanner yn Nhreláí. Mae tyfu i fyny mewn tlodi yn cael effaith negyddol ar ragolygon a lles plant yn y dyfodol, a phrofiadau plant ar ddechrau eu bywyd, cyn mynd i'r ysgol yn gallu arwain at oedi o ran datblygiad mewn sgiliau iaith, emosiynol a chymdeithasol, a iechyd cyffredinol gwael.

Fel yw'r achos yn genedlaethol, ceir bwlch mawr o ran deilliannau addysgol rhwng disgyblion o deuluoedd incwm isel a'r rhai hynny o gefndiroedd mwy cefnog yng Nghaerdydd. Mae plant sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig hefyd yn fwy tebygol o ddioddef canlyniadau iechyd gwaeth heddiw a dangos symptomau sy'n awgrymu iechyd gwael yn y dyfodol, megis gordewdra, cyfraddau imiwneiddio isel neu iechyd deintyddol gwael. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael teimladau o unigedd, o gael eu tynnu i mewn i ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu neu ddioddef effeithiau trosedd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant o deuluoedd incwm isel hefyd yn fwy tebygol o fod mewn perygl o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac mae cyfraddau'r plant yr ystyrir eu bod mewn perygl, sydd wedi'u nodi ar y gofrestr amddiffyn plant, neu sy'n derbyn gofal yn sylweddol uwch yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas.





# Caerdydd Yfory

Disgwylir i nifer y bobl ifanc (dan 18 oed) yng Nghaerdydd gynyddu gan 25 % dros yr 20 mlynedd nesaf, o gymharu â'r cynnydd cyffredinol yng Nghymru o 0.8 %. Felly bydd yn bwysicach yn gynyddol sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch lle maen nhw'n byw a'r gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn. Dyna pam mae Caerdydd wedi ymrwymo i ddod yn Ddinas sy'n Ystyriol o Blant UNICEF a mabwysiadu dull Hawliau Plant ar draws pob agwedd ar fywyd y ddinas.

Mae addysg yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i bobl ifanc yng Nghaerdydd, buddsoddiad pwysicaf yn economi'r ddinas a'r llwybr sicraf allan o dlodi ar gyfer unigolion. Dyna pam fod y ddinas wedi ymrwymo i adeiladu ar gynnydd y blynyddoedd diwethaf i sicrhau bod pob ysgol yng Nghaerdydd yn ysgol dda neu wych, a bod y bwlch o ran canlyniadau addysgol, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc agored i niwed a'r rhai hynny o gymunedau mwy difreintiedig, yn cael ei leihau.

Mae rhagamcanion yn dangos cynnydd o 5,700 (18 %) yn nifer y disgyblion oedran ysgol gynradd, a chynnydd o fwy na 9,000 (37 %) yn nifer y disgyblion oedran ysgol uwchradd erbyn 2036. Gan fod system ysgolion bresennol Caerdydd yn llawn neu bron â bod yn llawn, bydd angen buddsoddiad sylweddol i adeiladu ysgolion newydd ac adnewyddu a gwella ysgolion presennol. O ystyried graddfa'r buddsoddiad a phwysigrwydd ysgolion mewn cymunedau, mae'n rhaid iddynt fod wrth wraidd dull y ddinas tuag at fywyd cymunedol, gyda chysylltiadau cryf i bobl leol a grwpiau cymunedol at wasanaethau cyhoeddus eraill. Ac wrth i'r economi newid – bydd 65 % o blant sy'n dechrau yn yr ysgol heddiw yn gweithio mewn swyddi o fathau gwahanol yn y pendraw, rhai nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd – bydd cysylltiadau â busnesau lleol yn dod yn fwyfwy pwysig i sicrhau bod gan bobl ifanc sgiliau hyblyg a throsglwyddadwy yn ogystal â'r profiad sydd ei angen arnynt i ddod o hyd i swydd dda a llwyddo mewn bywyd.

Mae pobl ifanc yn dweud wrthym mai cefnogaeth iechyd meddwl yw un o'u prif flaenoriaethau nhw. Mae'r straen o lwyddo yn yr ysgol, sicrhau cyflogaeth a'r dylanwad y gall y cyfryngau cymdeithasol eu cael er eu hunan-barch, yn bryderon allweddol. Bydd cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu potensial ac i wrthsefyll pwysau bywyd modern, yn ganolog i gynnal eu hymdeimlad o lesiant.

Mae rhieni'n cael dylanwad helaeth ar blant a'u bywydau yn y dyfodol. Mae plant yn cael y canlyniadau gorau pan font yn cael eu cefnogi i dyfu a chyflawni o fewn eu teuluoedd, gan mai eu teuluoedd sy'n eu nabod orau. Ym mhob achos, byddwn yn mabwysiadu dull teuluol sy'n edrych ar y teulu yn ei gyfanrwydd ac sy'n cydlynu cymorth ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, wedi'i deilwra i anghenion a chryfderau pob teulu. Bydd partneriaid y sector cyhoeddus a thrydydd sector gan gynnwys athrawon, ymarferwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuenctid, ymarferwyr y trydydd sector, ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gweithwyr chwarae yn gweithio ynghyd i ddarparu dulliau cyfun i allu cynnal y sgyrsiau iawn ar yr adeg iawn, rhwng y bobl iawn ac i ddatrysiadau gael eu canfod mor gynnar â phosibl, yn enwedig i'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed.

Mae angen i bawb fod ynghlwm â nodi ac amddiffyn plant agored i niwed. Yn ein cymunedau lleol rydym am i unigolion deimlo eu bod yn gallu rhoi gwybod os ydyn nhw'n teimlo bod plentyn yn agored i risg – gallai hyn gynnwys ceidwad siop yn cael ei ofyn i werthu sigarennau i blentyn ar gyfer ei rieni, neu gasglwyr sbwriel sy'n gweld poteli wedi torri a sbwriel wrth ymyl teganau plant – sy'n codi pryderon nad ydynt o bosibl yn cael eu codi trwy wasanaethau cyffredinol i deuluoedd.

# Ein Hymrwymiadau i Gaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Gosod llais a phrofiad pobl ifanc wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd trwy fabwysiadu dull Hawliau Plant a dod yn 'Ddinas sy'n Ystyriol o Blant' UNICEF. |
| Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar deuluoedd, gan sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyfuno a bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth iawn, yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn, yn ystod 1000 o ddiwrnodau cyntaf o fywyd plentyn. |
| Datblygu dulliau yn seiliedig ar leoli i integreiddio gwasanaethau cyhoeddus i blant a theuluoedd yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas trwy beilot 'Plant yn Gyntaf' yn Nhreláі a Chaerau. |
| Datblygu dulliau arloesol i nodi'r rheiny sy'n agored i Brofiadau Plentyndod Negyddol, gan roi ymateb amlasiantaeth mewn lle i gefnogi plant a theuluoedd cyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. |
| Gweithio gyda chymunedau ac ar draws partneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i ymdrin â Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant. |
| Gwella iechyd meddwl a lles emosiynol pobl ifanc drwy ddarparu dull integredig i Gymorth Iechyd Emosiynol a Meddwl Plant a Phobl Ifanc. |
| Cefnogi pobl ifanc anabl a'u teuluoedd trwy ddarparu rhaglen Dyfodol Anableddau. |
| Sicrhau bod pobl ifanc yn barod ar gyfer ac yn cael cyfleoedd i gael swydd yn y byd gwaith drwy ddarparu 'Addewid Caerdydd' mewn partneriaeth â'r sector preifat a'r trydydd sector. |






The
Yr
hyb
The
Yr
hyb


## Amcan Lles 5

# Cefnogi pobl allan o dlodi

# Cyflwyniad

Mae perfformiad cadarn Caerdydd ar draws amrywiaeth o ddangosyddion llesiant yn cuddio anghydraddoldebau wedi'u hen sefydlu ar draws y ddinas. Mae dros 60,000 o bobl yng Nghaerdydd yn byw ymysg y 10 % o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yn wir, petai 'Arc Ddeheuol' Caerdydd, o Drelái yn y Gorllewin i Trowbridge yn y Dwyrain, yn cael ei ystyried yn un awdurdod lleol hwn fyddai'r tlotaf yng Nghymru o gryn dipyn.

Gall byw mewn tlodi roi cysgod hir dros fywydau pobl - mae disgwyliad oes a dangosyddion iechyd eraill yn is yn wardiau mwyaf difreintiedig Caerdydd, mae ansawdd aer yn waeth, mae llai o fynediad i fannau gwyrdd ac mae trosedd yn y ddinas i'w weld gan mwyaf yn yr ardaloedd hyn. Sut i sicrhau bod yr holl ddinasyddion yn elwa o dwf economaidd y brifddinas yw un o'r materion mwyaf cymhleth a heriol sy'n wynebu Caerdydd dros y blynyddoedd i ddod.




# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
|---|
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi (h.y. is na 60 % o incwm canolrifo) yn ôl MSOA (ar ôl costau tai) |
| Hawlwyr LCG hirdymor (h.y. mwy na blwyddyn) |
| Disgwyliad oes iach ar enedigaeth (gwrywaidd a benywaidd) gan gynnwys y bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig (Dangosydd Cenedlaethol 2) |
| Canran y babis â phwysau geni isel (Dangosydd Cenedlaethol 1) |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau neu fwy y dydd |
| Canran yr oedolion sy'n egnïol am fwy na 30 munud yr wythnos |
| Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i gyflog blynyddol gros canolrifol (ONS) |
| Cysgwyr ar y stryd fesul 10,000 o bobl |
| Tlodi bwyd (dangosydd i'w ddiffinio) |
| Tlodi tanwydd (dangosydd i'w ddiffinio) |

# Caerdydd Heddiw

Mae Caerdydd wedi'i gweddnewid dros yr 20 mlynedd diwethaf. Er gwaetha'r swyddi a grëwyd a'r buddsoddiad a atynwyd, nid yw holl breswylwyr y ddinas yn gweld y twf economaidd ac mae nifer o'r cymunedau tlotaf yng Nghymru i'w canfod yn y brifddinas. Mae bron i draean o aelwydydd Caerdydd yn byw mewn tlodi, gyda chyfran uchel o blant yn byw mewn aelwydydd di-waith ac incwm isel ac mae cysylltiad agos rhwng crynodiadau diweithdra a thlodi gwaith a iechyd gwael, trosedd ac anghydraddoldebau addysgol ledled y ddinas.

Mae tlodi gwaith yn broblem sy'n cynyddu yn y ddinas. Mae tua chwarter o bobl mewn diweithdra yn ennill llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol, ac mae cyflogaeth achlysurol, hunangyflogaeth orfodol, contractau dim oriau a mathau eraill o waith ansicr yn golygu straen a gofid cyson i nifer cynyddol o bobl.

Gall problemau gofal plant (argaeledd isel a fforddiadwyedd), diffyg sgiliau (yn enwedig sgiliau digidol) ac anhyblygrwydd y system lles oll greu rhwystrau o ran gweithio, a gall Diwygio Lles gael effaith anghyfartal ar sectorau mwy agored i niwed y boblogaeth, gyda 72 % o aelwydydd a effeithir gan y cap budd-daliadau yng Nghaerdydd yn rhieni sengl â chyfartaledd o 3.3 o blant yn yr aelwydydd yr effeithir arnynt.

Dywedodd dros 50 % o ymatebwyr i Arolwg Holi Caerdydd 2016 eu bod yn bryderus o ran gallu fforddio safon byw digonol. Mae cynnydd ym mhrisiau tai, bwyd a thanwydd wedi codi'r gost o fyw, yn arbennig i bobl sy'n byw yn wardiau tlotaf y ddinas. Mae tlodi tanwydd yn broblem sy'n cynyddu yn yr un modd â thlodi bwyd, ac mae preswylwyr gan gynnwys pobl hŷn yr effeithir arnynt gan y problemau hyn yn aml yn gorfod dewis rhwng gwres neu fwyd. Mae effeithiau cymdeithasol hyn yn amlwg o arolwg Holi Caerdydd lle nad oedd 13 % o breswylwyr yn teimlo eu bod yn gallu gwadd ffrind neu ffrind plentyn am bryd o fwyd oherwydd pryderon arian. Mae lefelau cynyddol o ddefnydd banciau bwyd yn amlygu pa mor aml mae unigolion a theuluoedd yn mynd i argyfwng ariannol sy'n effeithio ar eu gallu i gynnal deiet iach i'w hunain a'u teuluoedd. Mae gwyliau'r ysgol yn gyfnod penodol o wasgfa i deuluoedd incwm isel. Mae Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol 'Bwyd a Hwyl' Caerdydd, sydd wedi'i gyflwyno ar draws Cymru, bellach yn cynnig prydau am ddim i blant o 21 ysgol leol.

Mae tai, cydran ganolog o ansawdd bywyd, yn parhau'n gymharol anfforddiadwy o gymharu â dinasoedd eraill ym Mhrydain gyda chost gyfartalog tai yn costio tuag wyth gwaith y cyflog cyfartal. Hefyd, mae cysylltiad agos rhwng wardiau sy'n cynnwys lefelau uchel o amddifadedd a lefelau uchel o dai cymdeithasol. Ynghyd â'r cynnydd o ran nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi, y cynnydd o ran y rheiny sy'n wynebu amddifadedd a digartrefedd yw un o'r problemau mwyaf yng Nghaerdydd, ac mae nifer y rheiny a gofnodwyd yn cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd wedi dyblu ers 2014. Mae cysgu ar y stryd yn beryglus a gall ddifrodi bywydau pobl yn barhaol - a disgwyliad oes cyfartalog rhywun sy'n cysgu ar y stryd yw 47 oed, 30 mlynedd yn ieuengach na'r boblogaeth gyffredinol. Hefyd, po hiraf y bydd unigolyn yn parhau ar y strydoedd, po fwyaf tebygol y gall problemau eilradd fel cardota, camddefnyddio cyffuriau neu alcohol ddod yn broblem.

Datgelodd arolwg Holi Caerdydd 2017 anghyfartaleddau rhwng ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig y ddinas ar draws amrywiaeth o gwesitynu o ran llesiant, gan gynnwys:

- Adroddodd 51.3 % o ymatebwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig eu bod yn fodlon a'u cymuned leol fel lle i fyw o'i gymharu â 91.3 % o ymatebwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig
- Adroddodd mwy na chwarter o ymatebwyr o gymunedau difreintiedig eu bod yn anfodlon â'u hiechyd meddwl ac emosiynol o'i gymharu â llai nag un rhan o ddeg o ymatebwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- Sgoriodd pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y ddinas, yn is na'r cyfartaledd yng Nghaerdydd yn erbyn yr holl ddangosyddion llesiant personol a fesurwyd (lefelau hapusrwydd, bodlonrwydd, pryder a theimlo'n werth chweil)

# Caerdydd Yfory

Mae economi sy’n creu swyddi da, sy’n talu ar neu uwchben y Cyflog Byw, yn allweddol i daclo tlodi. Yn yr un modd, mae taclo tlodi yn allweddol i greu economi cryf. Mae astudiaeth ddiweddar gan Dinasoedd Craidd wedi dangos tra bod tua 60 % o’r ‘bwlch cynhyrchedd’ rhwng y Dinasoedd Craidd a chyfartaledd y DU oherwydd ffactorau ‘yn y gwaith’, y gellir ei daclo trwy fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth, band-eang, ymchwil ac arloesedd a chymorth busnes, mae tua 40 % o’r bwlch hwn oherwydd amddifadedd, lefelau sgiliau isel, a phobl yn cael eu datgysylltu o’r farchnad lafur.

Felly, rhaid i ffocws ar greu swyddi da ddod law yn llaw â chwalu rhwystrau i waith – beth bynnag y bônt ac i’r holl ddinasyddion. Bydd cefnogi oedolion i gyflogaeth hefyd yn helpu cenedlaethau’r dyfodol; mae gan blant sy’n gweld eu rhieni mewn cyflogaeth gyfle cynyddol o weithio eu hunain, gan leihau’r tebygolrwydd o dlodi yn effeithio ar genedlaethau lluosog mewn teulu. Bydd angen parhau i gefnogi’r rheiny yr effeithir arnynt gan Ddiwygio Lles wrth i’r gwaith o bontio i Gredyd Cynhwysol gael ei chyflwyno, tra’n cyfuno dull tameidiog ar hyn o bryd o ran cyflogaeth ledled y ddinas, a sicrhau bod cynlluniau adfywio, projectau mawr a sectorau sy’n tyfu’n gyflym yn cael eu cefnogi gan sgiliau priodol a rhaglenni hyfforddiant.

Mynd i’r afael ag anfantais sydd wedi ymwreiddio, anghydraddoldeb iechyd meddwl a chulhau’r bwlch mewn cyfleoedd bywyd ledled y ddinas bydd angen defnyddio dulliau wedi’u targedu o drechu tlodi, integreiddio gwasanaethau cyhoeddus ar lefel leol a chydweithio’n agos â phreswylwyr yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas. Bydd dull ardal leol newydd Caerdydd, sy’n cyfuno gwasanaethau cyhoeddus ar lefel leol mewn ffordd sy’n gwneud synnwyr ar gyfer pob cymuned benodol, adeiladu ar lwyddiant y Model Hyb Cymunedol a Lles, wrth wraidd dull y ddinas i daclo tlodi. Yn gysylltiedig â hyn, mae diwygio rhaglenni atal tlodi blaenllaw Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfle i gael gwared ar unrhyw rwystrau diangen a’u hail-ddychmygu mewn ffordd gydlynol a chynhwysol, gyda’r hyblygrwydd i ymateb i gryfderau a heriau teuluoedd a chymunedau unigol.

I ddatblygu dull cyfunol i’r rheiny sydd wedi mynd i amddifadedd bydd angen gweithio mewn partneriaeth. Mae gorgyffwrdd cryf rhwng ffurfiau eithafol o ddigartrefedd ac anghenion cymorth eraill, gyda bron i hanner o ddefnyddwyr gwasanaeth yn adrodd profiad o ofal sefydliadol, camddefnyddio sylweddau a gweithgareddau stryd megis cardota. Hefyd, mae pobl ag anghenion cymhleth mewn perygl difrifol o ddisgyn trwy’r craciau mewn darpariaeth gwasanaeth. Bydd angen ymateb integredig ar draws gofal iechyd, tai a chymdeithasol, gan weithio gyda phartneriaid rhanbarthol y ddinas tuag at ddull sy’n ymyrryd yn gynnar mewn ymateb i’r anghenion a’r heriau a wynebir gan bob unigolyn.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn cyflogi bron i 46,000 o bobl ac yn cyfrannu dros £1bn o wariant yn yr economi leol. Yn ogystal â darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol, fel cyflogwyr mawr mae ganddynt y potensial i gael effaith ar daclo tlodi drwy greu cyfleoedd i bobl, yn enwedig pobl ifanc, o gymunedau mwyaf difreintiedig Caerdydd (er enghraifft, trwy Addewid Caerdydd) neu trwy addasu polisïau caffael i ddarparu mwy o fanteision cymunedol a chynyddu gwariant yn yr economi leol.

# Ein Hymrwymiadau i Gaerdydd:

| Byddwn yn: |
|---|
| Ceisio darparu mwy o swyddi â thâl gwell yng Nghaerdydd drwy weithredu fel eiriolwr ar gyfer y fenter Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws cyflogwyr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, ac ystyried hyn wrth gomisiynu ac ariannu. |
| Cefnogi pobl sydd wedi'u heffeithio'n negyddol gan ddiwygio lles drwy ddarparu dull integredig, wedi'i ddarparu'n lleol mewn Hybiau Cymunedol a Lles. |
| Datblygu dull integredig i wasanaethau cyflogaeth yng Nghaerdydd, helpu pobl i ddod o hyd i waith, aros mewn gwaith a chynyddu yn y gwaith, gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a darparwyr hyfforddiant. |
| Sicrhau bod rhaglenni atal tlodi blaenllaw Llywodraeth Cymru (Cynlluniau Gadael Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl) wedi'u dylunio a'u darparu mewn ffordd gydlynol. |
| Ceisio atal cysgu ar y strydoedd yn y ddinas a mynd i'r afael ag achosion o ddigartrefedd. |
| Ceisio cynyddu effaith gwasanaethau cyhoeddus fel cyflogwr o bwys wrth fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo arferion 'gweithio'n deg' drwy ddatblygu dulliau gweithio ar draws y gwasanaethau cyhoeddus tuag at 'Gyfrifoldeb Cymdeithasol', 'Buddiannau Cymunedol' a 'Chyflogaeth Foesegol'. |
| Cefnogi Partneriaeth Bwyd dinas-eang i sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at fwyd cynaliadwy, iach a fforddiadwy, gan gynnwys parhau i gyflwyno'r rhaglen gyfoethogi gwyliau ysgol. |
| Cynnal ymchwil ychwanegol ar sut i daclo anghydraddoldebau iechyd yn y ffordd orau a lleihau'r bwlch o ran disgwyliad oes iach. |
| Gweithio i gefnogi'r gwaith o ddarparu Strategaeth Weithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd er mwyn sicrhau bod cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol yn cymryd mwy o ran mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol, yn enwedig yn yng nghymunedau mwyaf difreintiedig ein dinas. |








Amcan Lles 6

# Mae Caerdydd yn lle gwych i fynd yn hŷn

# Cyflwyniad

Mae sut mae cymdeithas yn trin pobl wrth iddynt fyd yn hŷn yn adlewyrchu ei gwerthoedd a'i hegwyddorion, ac yn anfon neges bwysig i genedlaethau'r dyfodol. Mae Caerdydd am i'r ddinas fod yn lle gwych i dyfu'n hŷn, lle mae pobl hŷn yn fwy grymusol, yn iach ac hapus, ac yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus a chymunedol rhagorol sydd wedi'u hintegreiddio ym mhob rhan o fywyd cymunedol.




# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
| --- |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod wedi derbyn yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo'i angen arnynt |
| Canran yr oedolion 65+ oed a nododd eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw |
| Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn unig. |
| Bodlonrwydd pobl hŷn â bywyd |

" Uchelgais Caerdydd ... lle mae pobl hŷn yn fwy grymusol, yn iach ac hapus "

# Caerdydd Heddiw

Er bod Caerdydd yn ddinas ifanc, mae dros 50,000 o ddinasyddion dros 65 oed ac mae disgwyliad oes a disgwyliad oes iach wedi cynyddu'n gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf. Gan edrych ledled Caerdydd, mae nifer uwch o bobl hŷn yn byw yng ngogledd a gorllewin y ddinas. Er enghraifft, yng ngogledd Caerdydd, mae 19 % o'r boblogaeth dros 65 oed a 3 % dros 85 oed, o gymharu â dim ond 6.3 % dros 65 oed a 0.9 % dos 85 oed yn Ne-ddwyrain Caerdydd.

Mae'r mwyafrif o bobl hŷn yng Nghaerdydd (68 % ) yn nodi eu bod mewn iechyd da, da iawn neu ragorol, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Wedi dweud hynny, mae disgwyliad oes cynyddol wedi golygu bod nifer uwch o bobl yn dioddef o iechyd gwael yn ddiweddarach mewn bywyd ac yn dibynnu ar hyd yn oed mwy o wasanaethau cyhoeddus. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fod angen arosiadau hirach ac amlach mewn ysbyty, gyda bron i ddau draean o bobl sy'n mynd i'r ysbyty dros 65 oed. Mae breuder yn gysylltiedig â heneiddio. Mae pobl sy'n fregus, yn aml yn meddu ar gyflyrau meddygol cymhleth, gyda gallu is i fyw'n annibynnol ac angen cymorth gyda thasgau bob dydd. Yn benodol, mae cwympiadau sy'n arwain at doriadau clun yn rhoi pwysau sylweddol ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae cynnydd mewn disgwyliad oes hefyd yn golygu bod mwy o bobl hŷn yn agored i arwahanrwydd cymdeithasol a byw mewn tlodi pan fônt yn hŷn. Mae creu'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol wedi bod yn hanfodol wrth helpu pobl i gael gafael ar y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo (sy'n cyfateb i £4.9 miliwn ychwanegol mewn budd-daliadau lles ers mis Hydref 2015) a hwyluso ymyraethau ataliol i leihau achosion o lithro, baglu a disgyn. Mae gwasanaethau cymorth a chyngor pwysig hefyd yn cael eu darparu drwy sefydliadau'r trydydd sector ledled Caerdydd, megis Age Connects a Care & Repair.

Mae'r pwysau a'r costau cyfredol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio yn sylweddol, ac ni fyddant yn lleihau. Bydd dod o hyd i ddatrysiadau i'r heriau hir dymor hyn yn golygu gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio hyd yn oed yn agosach mewn partneriaeth i helpu pobl hŷn i fod yn ddiogel, ac mor iach ac annibynnol â phosibl, ac i arwain bywydau sydd â gwerth, ystyr a phwrpas.





# Caerdydd Yfory

Wrth i'r ddinas dyfu, a disgwyliad oes barhau i gynyddu, disgwylir i nifer y bobl hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd godi'n sylweddol, gyda nifer y dinasyddion rhwng 65 a 84 oed godi gan 44% dros yr 20 mlynedd nesaf, a disgwylir i nifer y rheiny dros 85 oed ddyblu bron a bod.

Daw pobl hŷn yn ased pwysig i'r ddinas, yn gwneud cyfraniadau sylweddol i'r economi, bywyd y ddinas a'i chymunedau. Wrth i'r ddinas dyfu, bydd hi hefyd yn bwysig bod cymunedau newydd yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n bodloni anghenion pobl hŷn. I sicrhau hyn, bydd angen cynllunio ar y cyd a chynnig amrywiaeth o ddewisiadau llety yn y dyfodol i fodloni'r galw am dai a galluogi pobl i aros gartref.

Er mwyn mynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigrwydd cymdeithasol, mae angen i gymunedau lleol gael rhwydweithiau cymunedol sy'n lleol, yn gryf ac yn hawdd cael gafael arnynt er mwyn cefnogi anghenion pobl hŷn lle maent yn byw. Bydd hyn yn nodwedd amlwg yn null Caerdydd o 'weithio'n lleol' ac, wrth i'r ddinas dyfu, o ran cynllunio a darparu cymunedau newydd. Gall galluogi pobl hŷn i chwarae rôl yn eu cymunedau, datblygu gwasanaethau sy'n pontio'r cenedlaethau a gwella mynediad i weithgareddau cymunedol wella iechyd corfforol a meddwl yn sylweddol, gan leihau'r risg o gwympiadau a helpu mwy o bobl i fwynhau bywydau annibynnol yn hirach.

Hefyd, bydd gan boblogaeth hŷn sy'n tyfu ragor o anghenion iechyd a gofal gan roi straen ar gyllidebau ac adnoddau. Yn ogystal â straen ar wasanaethau o ganlyniad i fod yn fregus pan fo pobl yn hŷn a bod â chyflyrau meddygol hirdymor, bydd nifer cynyddol o bobl hŷn yn dioddef o broblemau iechyd cronig, megis demensia. Rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n 75 oed a hŷn â demensia. Erbyn 2035, rhagwelir y bydd mwy na 6000 o bobl yng Nghaerdydd yn byw gyda'r cyflwr, sef cynnydd o 3400 o bobl o'i gymharu â heddiw. I leddfu'r straen ar wasanaethau cyhoeddus mewn cyfnod pan gaiff cyllidebau eu lleihau, bydd mabwysiadu dull ataliol yn hollbwysig. Drwy fynd ati'n gyflymach i integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, a dod â'n hadnoddau a'n gwasanaethu ynghyd ar lefel genedlaethol, sicrheir bod cymaint o bobl ag sy'n bosibl yn derbyn gofal yn eu cymunedau tra bod buddsoddiad yn canolbwyntio ar atal, a hyrwyddo byw'n annibynnol. Nid yn unig y mae hyn yn ddull mwy cynaliadwy i fodloni anghenion unigolion yn hwyrach mewn bywyd, gan leihau straen ar wasanaethau iechyd a gofal y ddinas a lleihau costau, bydd hefyd yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell.

I fod yn ddinas sy'n ystyriol o ddemensia ac yn ddinas sy'n ystyriol o bobl o bob oedran, bydd angen i Gaerdydd addasu ei strwythurau a'i gwasanaethu i fod yn gynhwysol ac yn hygyrch i bobl hŷn ag anghenion a galluoedd amrywiol. Golyga hyn mynd ati i sicrhau bod polisïau a rhaglenni gwaith sy'n canolbwyntio ar anghenion dinasyddion hŷn, yn enwedig y rhai hynny sydd fwyaf dan anfantais, yn rhan ganolog o waith y darparwyr gwasanaethau. I sicrhau arferion asesu, diagnosis a chynllunio gofal, bydd angen bwrw ati o ddifrif i gydweithio â phobl hŷn, eu gofalwyr a'u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu beth sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cyflawni'r canlyniadau a werthfawrogir ganddynt.

# Ein Hymrwymiadau i Gaerdydd:

| Byddwn yn: |
| --- |
| Adeiladu ar y gwasanaethau Pwynt Cyswllt Cyntaf a’r Pwynt Mynediad Unigol, datblygu gwasanaethau digidol ynghyd â digon o bwyntiau mynediad wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar-lein hygyrch ar gyfer y rhanbarth, i weithwyr proffesiynol a’r cyhoedd. |
| Datblygu cymunedau gwydn â gwasanaethau lleol, rhwydweithiau seilwaith a chymunedol cryf i ddiwallu anghenion lleol lle mae pobl hŷn yn byw. |
| Datblygu a darparu ystod o ddewisiadau llety yn y dyfodol i ddiwallu’r galw a galluogi pobl i aros gartref gyhyd â phosibl. |
| Datblygu arferion asesu, diagnosis a chynllunio gofal gwell, yr adeiledir arnynt trwy gydweithredu gwirioneddol â phobl hŷn a’u gofalwyr a’u teuluoedd, fel bod eu cynllun yn adlewyrchu’r hyn sy’n bwysig iddyn nhw ac yn cyflawni’r canlyniadau maen nhw’n eu ceisio. |
| Datblygu Caerdydd fel dinas dementia gyfeillgar. |






Amcan Lles 7

# Moderneiddio ac Integreiddio Ein Gwasanaethau Cyhoeddus

# Cyflwyniad

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn mynd trwy gyfnod o newid cyflym. Dros y blynyddoedd nesaf bydd angen iddynt barhau i addasu mewn ymateb i'r twf cyflym mewn poblogaeth, disgwyliadau newidiol dinasyddion, canlyniadau tlodi a chyfyngiadau adnoddau sylweddol a pharhaus.

Ni all unrhyw wasanaeth unigol ddiwallu'r heriau y mae'n eu hwynebu ar ei ben ei hun. Bydd angen dulliau newydd, integredig o ddarparu gwasanaeth, a nodweddir gan ysgogiad i ddadansoddi ac ail-siapio ffiniau sefydliadol, systemau a diwylliannau o amgylch anghenion y rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth a'u cymunedau. Mae gan ddarparwyr gwasanaeth yng Nghaerdydd hanes o weithio ynghyd, ond mae angen i hyn gynyddu eto i greu diwylliant o wasanaeth cyhoeddus ag un diben – i ddarparu ar gyfer pobl Caerdydd.




# Mesur Cynnydd

| Dangosyddion canlyniad lefel dinesig y bydd y BGC yn ceisio effeithio arnynt |
| --- |
| I ba raddau ydych chi'n cytuno bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn dda ar y cyfan? |

# Caerdydd Heddiw

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn mynd trwy gyfnod o her nas gwelwyd o'i fath o'r blaen.

Mae gwasanaethau cyhoeddus y ddinas wedi wynebu cyfnod o ostyngiadau cyllideb difrifol a pharhaus. Er enghraifft, dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Cyngor Caerdydd ar ei ben ei hun wedi llwyddo i wneud arbedion cronnus gwerth chwarter biliwn o bunnoedd, mae wedi lleihau nifer y staff nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion o 22% ac mae'n rhagweld gwneud £81 miliwn ychwanegol mewn arbedion erbyn 2021. Mae hon yn sefyllfa a welir ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gyda'r gwasanaeth iechyd, heddlu a thân oll wedi gwneud arbedion sylweddol ac wynebu gostyngiadau cyllidebol parhaus. Ynghyd â hyn, mae sefydliadau trydydd sector ledled y ddinas wedi delio â thoriadau ariannol gan fod y cyllid grant sydd ar gael wedi lleihau a'r meini prawf cymhwyster wedi tynhau.

Ar yr un pryd, mae gwasanaethau'r ddinas yn wynebu cyfnod o gynyddiadau cyflym a parhaus o ran galw. Mewn ymateb, mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn y ddinas wedi newid. Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd newid tuag at fwy o gydweithredu ac integreiddio gwasanaethau ar lefel cymunedol, gan gynnwys cydleoli gwasanaethau mewn cyfleusterau cymunedol neu Hybiau a chyflwyno timau amlasiantaeth i sicrhau bod y gwasanaeth iawn yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn, gan y sefydliad mwyaf priodol yn y ffordd iawn.

Yn yr un modd, mae nifer o'r problemau sy'n wynebu Caerdydd a'i gwasanaethau - o drafnidiaeth i ddigartrefedd - i'w gweld ar draws ffiniau daearyddol. Mae mwy o brojectau a mentrau yn cael eu cynnal ar sail drawsffiniol, er enghraifft y Partneriaethau Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir rhwng Caerdydd, Pen-y-bont a'r Fro, Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol neu gydweithrediad Project Gwyrdd ar wasanaethau gwastraff. Wrth i wasanaethau cyhoeddus gael eu moderneiddio a phwyslais yn cael ei roi ar effeithlonrwydd, bydd yr angen am gydweithio rhanbarthol yn dod yn bwysicach wrth gyflwyno arbedion maint, yn enwedig ar gyfer 'swyddfa gefn' a gwasanaethau a rennir.

Mae disgwyliadau dinasyddion, yn gysylltiedig â newidiadau sydyn mewn technegol ddigidol, eisoes yn trawsnewid y modelau cyflenwi ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus lleol. Bellach mae pobl yn disgwyl gwasanaethau cyhoeddus digidol sydd yr union yr un fath â gwasanaethau eraill a ddefnyddir ganddynt, felly bydd angen cyflymu'r gwaith digideiddio hwn dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r holl wasanaethau cyhoeddus eisoes yn ceisio awtomeiddio prosesau, symud trafodion a gwasanaethau cwsmeriaid i sianeli cyfathrebu ar-lein a defnyddio technolegau 'clyfar' i reoli gwasanaethau a seilwaith yn fwy effeithlon, gan hefyd sicrhau nad yw 'eithrio digidol' yn effeithio ar breswylwyr nad ydynt yn gallu defnyddio'r fath wasanaethau.



# Caerdydd Yfory

Dros y blynyddoedd sydd i ddod, bydd angen i wasanaethau addasu ac ymateb i'r ddwy her, sef cynnydd mewn galw a llai o adnoddau.

Bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithio ynghyd i alinio strategaethau, rhannu adnoddau a chanolbwyntio ar lle gall cynllunio ar y cyd a darparu sicrhau'r gorau i ddinasyddion a chymunedau ledled y ddinas.  Bydd hyn yn golygu cyd-leoli gwahanol rannau o'r gwasanaethau cyhoeddus ochr yn ochr â gwasanaethau cymunedol, yn yr un adeilad.  Mewn llawer o achosion, bydd ffurfio timau aml-asiantaeth unigol, rhannu cyllid, canlyniadau a gytunir ar y cyd, prosesau, technolegau a diwylliannau cyffredin yn dod yn fwy cyffredin.  I gefnogi'r integreiddiad hwn, datblygir dull traws-bartner o ran cynllunio'r ystâd sector cyhoeddus yn y ddinas.

Caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu ar y raddfa ofodol sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr.  Bydd gan Gaerdydd, fel y brifddinas, y capasiti i ddarparu gwasanaethau cenedlaethol; ystyrir y Brifddinas-Ranbarth fel y lefel briodol ar gyfer rheoli datblygiad gofodol o ran tai, trafnidiaeth a datblygiad economaidd; caiff iechyd a gofal cymdeithasol ei reoli ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg; a chaiff lefel 'ardal leol' neu 'gymdogaeth' sy'n alinio asedau a gwasanaethau sector cyhoeddus a thrydydd sector ar y lefel leol a lefel hyper-leol hefyd ei ddilyn.  Wrth i systemau sefydliadol gael eu dadelfennu a thimau traws-wasanaeth ddod yn norm, bydd y gallu i weithio ar draws ffiniau a diwylliannau yn dod yn fwyfwy gwerthfawr. Yn gysylltiedig â hyn y mae dull ar y cyd o reoli a datblygu ystâd sector cyhoeddus y ddinas, datblygu staff a chydgysylltu systemau gwybodaeth yn well yn arwain at weithio integredig a bydd yn helpu i newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi.

Ochr yn ochr â gwasanaeth cyhoeddus mwy integredig, bydd angen dull seiliedig ar asedau o ran ymgysylltu cymunedol sy'n gwrando ar ac yn cynnwys y rheiny sy'n derbyn y gwasanaeth o ran dylunio a'r penderfyniadau a wneir am eu gwasanaeth.  Yn gysylltiedig â gwell dealltwriaeth o brofiad y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, caiff dulliau traws-bartner o ran rhannu data a dadansoddi eu cryfhau fel bod aelodau'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn defnyddio'r wybodaeth orau wrth wneud penderfyniadau ar sut y dylai gwasanaethau gael eu cynllunio a'u darparu yn y dyfodol, gyda ffocws penodol ar ddylunio a buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol sy'n ceisio canfod achos problem, neu ymyrryd yn gynnar cyn y gall problemau mwy a mwy difrodol ddod i'r amlwg.

> "Cydweithio … er mwyn creu diwylliant un gwasanaeth cyhoeddus gydag un diben"

# Ein Hymrwymiadau i Gaerdydd:

| Byddwn yn: |
| --- |
| Mabwysiadu dull gwasanaethau traws-gyhoeddus o ran rheoli eiddo ac asedau cyhoeddus. |
| Datblygu gweithlu gwasanaeth cyhoeddus y ddinas a sicrhau bod ganddynt y sgiliau priodol i fodloni anghenion a gofynion newidiol. |
| Datblygu dull cydunol o ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio |
| Treialu Hyb Arloesi newydd y Ddinas i ddatblygu datrysiadau newydd i heriau dinas fawr, gan weithio gyda'r holl bartneriaid gwasanaethau. |
| Ceisio cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector a gweithlu sy'n gynrychioliadol o'r ddinas a'i chymunedau, yn enwedig cymunedau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd Ethnig. |



# Mesur Cynnydd – Dangosyddion Llesiant

Bydd gosod mesuriadau yn erbyn pob amcan lles yn cynorthwyo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd o ran gwerthuso'r lefel llwyddiant o ran codi lles y ddinas, a nodi meysydd sydd angen ffocws ychwanegol neu ymrwymiadau diwygiedig. Adroddir ar y rhain bob blwyddyn. Mae'r mesuriadau a nodir isod yn gyfuniad o ddangosyddion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a ddewiswyd i ddangos yn glir y cynnydd yn erbyn pob amcan. Cydnabyddir wrth adrodd yn flynyddol, a'r angen i arddangos effaith byr dymor, bydd angen ystyriaeth hir dymor ar nifer o'r mesurau cynnydd a ddewisir er mwyn cyflawni'r targed dymunol.

Mae dangosyddion ychwanegol wedi'u cynnwys i fesur llesiant pobl Caerdydd a gofnodwyd, gan weithredu dull holistaidd tuag at lesiant yn hytrach na chyd-fynd ag Amcan penodol yn y Cynllun.

| Dangosyddion Llesiant |
|---|
| Boddhad â bywyd |
| Gwerth chweil |
| Hapusrwydd |
| Gorbryder |
| Canran y bobl sy'n eithaf bodlon neu'n fodlon iawn â'u swyddi |

| Amcan 1 - Prifddinas sy'n Gweithio i Gymru |
|---|
| Cyfradd ddiweithdra'r boblogaeth 16+ oed sy'n economaidd weithgar (seiliedig ar fodel) |
| GVA y pen |
| Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen (Dangosydd Cenedlaethol 10) |
| Swyddi cyflogeion â thâl bob awr is na'r cyflog byw |
| Canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed â chymwysterau NVQ+ (lefel gradd neu gyfwerth) |
| Aethoch chi i ddigwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? A wnaethoch chi ymweld â lleoliad hanesyddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Aethoch chi i amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? (Arolwg cenedlaethol: 3 chwestiwn ar wahân) |
| Siaradwyr Cymraeg (Dangosydd Cenedlaethol 37) |

| Amcan 2 - Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn |
|---|
| Allyriadau CO2 fesul pen o'r boblogaeth (BEIS) |
| Rhaniad moddol trafnidiaeth gynaliadwy |
| Lefelau Nitrogen Deuocsid (NO2) a lefelau llygredd mater gronynnol (PM10, PM2.5) yn yr aer |
| Defnydd o/agosrwydd at fan naturiol hygyrch:<br>• Ansawdd: Nifer y safleoedd sy'n bodloni meini prawf Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd.<br>• Hygyrchedd: Canran y bobl sy'n byw o fewn pellter cerdded o fan gwyrdd o ansawdd uchel. |
| Nifer yr eiddo yng Nghaerdydd sydd wedi cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Rhybudd am Lifogydd |
| Cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff dinesig |

| Amcan 3 - Cymunedau Diogel, Hyderus a Grymusol |
|---|
| Pobl yn cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (Dangosydd Cenedlaethol 27) |
| Canran sy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol) |
| Pobl yn teimlo'n ddiogel (yn eu cartrefi, wrth gerdded yn eu hardal leol, ac wrth deithio) (Arolwg Cenedlaethol) |
| Cyfran y troseddwyr sy'n aildroseddu (oedolion a phobl ifanc) ar y cyfan dros y flwyddyn ddiwethaf |
| Canran y cleientiaid yn defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a adroddodd welliant yn eu hansawdd bywyd |
| Cyfraddau gwirfoddoli |

| Amcan 4 - Mae Caerdydd yn lle gwych i fagu plant |
|---|
| Canran y plant o deuluoedd incwm isel |
| Canran y plant rhwng 4 a 5 sy'n bwysau iach |
| Nifer y plant sy'n derbyn MMR2 erbyn eu bod yn 4 oed (ail ddos o frechlyn Clwy'r Pennau, y Frech Goch, Rwbela) |
| Lles meddwl: plant ac oedolion ifanc, ac oedolion (Dangosydd Cenedlaethol 29) |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Cyflawni'r Lefel Ddisgwyliedig (L4+) yn y Dangosydd Pwnc Craidd<br>[gan gynnwys bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn PYADd a phlant nad ydynt yn derbyn PYADd ar lefel ALl] |
| Disgyblion Cyfnod Allweddol 4 yn Cyflawni'r Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg / Cymraeg a Mathemateg<br>[gan gynnwys bwlch cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn PYADd a phlant nad ydynt yn derbyn PYADd ar lefel ALl] |
| Ymadawyr ysgol ym Mlwyddyn 11 a Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (Gyrfa Cymru) |
| Canran y Plant sy'n beicio/cerdded i'r ysgol |

| Amcan 5 - Cefnogi pobl allan o dlodi |
| --- |
| Canran yr aelwydydd mewn tlodi (h.y. is na 60 % o incwm canolrifo) yn ôl MSOA (ar ôl costau tai) |
| Hawlwyr LCG hirdymor (h.y. mwy na blwyddyn) |
| Disgwyliad oes iach ar enedigaeth (gwrywaidd a benywaidd) gan gynnwys y bwlch rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig (Dangosydd Cenedlaethol 2) |
| Canran y babis â phwysau geni isel (Dangosydd Cenedlaethol 1) |
| Canran yr oedolion sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau neu fwy y dydd |
| Canran yr oedolion sy'n egnïol am fwy na 30 munud yr wythnos |
| Canran yr oedolion sy'n ysmygwyr ar hyn o bryd |
| Fforddiadwyedd Tai: Cymhareb pris tai i gyflog blynyddol gros canolrifol (ONS) |
| Cysgwyr ar y stryd fesul 10,000 o bobl |
| Tlodi bwyd (dangosydd i'w ddiffinio) |
| Tlodi tanwydd (dangosydd i'w ddiffinio) |

| Amcan 6 - Mae Caerdydd yn lle gwych i fynd yn hŷn |
| --- |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneir am eu gofal a'u cymorth |
| Canran y bobl 65+ oed a nododd eu bod wedi derbyn yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan fo'i angen arnynt |
| Canran yr oedolion 65+ oed a nododd eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw |
| Canran y bobl 65+ oed sy'n dweud eu bod yn unig. |

| Amcan 7 - Moderneiddio ac Integreiddio Ein Gwasanaethau Cyhoeddus |
| --- |
| I ba raddau ydych chi'n cytuno bod ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd yn dda ar y cyfan? |

# Geirfa

**BAME** - (cymunedau) Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

**Ôl-troed carbon** - Faint o garbon deuocsid a gaiff ei ryddhau i mewn i'r atmosffer o ganlyniad i weithgareddau unigolyn, sefydliad neu gymuned benodol.

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** - Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys ardal o Dde-ddwyrain Caerdydd, yn cynnwys y deg awdurdod lleol (Pen-y-bont, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Tor-faen, Casnewydd a Chaerdydd).

**Tlodi bwyd** - Yr anallu i fforddio, neu gael mynediad i, fwyd i wneud diet iach. Mae'n ymwneud ag ansawdd bwyd yn ogystal â'r swm.

**Tlodi Tanwydd** - Dywedir bod aelwyd mewn tlodi tanwydd os ydyw wedi mynd i gostau tanwydd sy'n uwch na'r cyfartaledd (y lefel canolrifol cenedlaethol), a phe bai'n gwario'r swm hwnnw byddai ganddo incwm gweddilliol is na'r llinell tlodi swyddogol.

**Pwerau Cyllidol** – Y gallu i addasu lefelau gwario a chyfraddau treth i fonitro a dylanwadu ar economi. Disgwyliad Oes Iach – amcan o faint o flynyddoedd y gallai person fyw mewn cyflwr 'iach'.

**Dangosyddion –** Mae dangosyddion perfformiad yn ffyrdd o fesur cynnydd tuag at gyflawni ein canlyniadau. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi cytuno ar y dangosyddion a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

**Y Cyflog Byw -** Lefel cyflog damcaniaethol sy'n galluogi i'r enillydd fforddio lloches ddigonol, bwyd a hanfodion eraill bywyd. Ar hyn o bryd mae hyn wedi'i osod ar £7.85 yr awr (£9.15 yn Llundain).

**Disgwyliad Oes** – Yn fras, nifer y blynyddo edd y disgwylir i berson fyw.

**Twf Poblogaeth** – Y cynnydd o ran nifer yr unigolion mewn poblogaeth.

**Tlodi** – Byw o dan y trothwy tlodi a ddiffinnir fel o dan 60 % o incwm cartref cyfartalog (cyn costau tai). Tlodi mewn gwaith yw byw mewn cartref lle y mae incwm y cartref yn is na'r trothwy tlodi er gwaethaf y ffaith bod un aelod o'r cartref yn gweithio naill ai llawn amser neu ran amser.

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** – Cyrff sector cyhoeddus yn gweithredu ar y cyd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal yr Awdurdod Lleol. Ymhlith yr aelodau statudol mae'r Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**Unigedd Cymdeithasol** – Cyflwr o ddiffyg cyswllt rhwng unigolyn a chymdeithas. Mae'n wahanol i unigrwydd, sy'n adlewyrchu diffyg cyswllt dros dro â phobl eraill.

**Masnachu mewn pobl** - Mae masnachu mewn pobl yn digwydd gan mwyaf at y diben o lafur gorfodol, caethwasiaeth rhywiol, neu gam-fanteisio rhywiol masnachol i'r masnachwr neu eraill.

**Dinasoedd Craidd y DU** – Mae'r 'dinasoedd craidd' yn grŵp o 10 dinas fawr sy'n cynnwys wyth economi ddinesig fwyaf Lloegr ac eithrio Llundain, yn ogystal â Chaerdydd a Glasgow. Mae cymariaethau'n cael eu gwneud â'r dinasoedd hyn drwy gydol y ddogfen hon.

**Llesiant** – Yn syml, mae llesiant yn ymwneud â 'sut ydym yn perfformio' fel unigolion, cymunedau ac fel cenedl a pha mor gynaliadwy yw hyn ar gyfer y dyfodol. Gellir disgrifio llesiant fel rhywbeth sydd â 10 dimensiwn cyffredinol, "yr amgylchedd naturiol, lleisant personol, ein perthynas ag eraill, iechyd, ein gwaith, lle'r ydym yn byw, cyllid personol, yr economi, addysg a sgiliau a llywodraethu" (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2013).